Swyddfa
Ystadegau Gwladol

# Dyfodol ystadegau am y boblogaeth a mudo yng Nghymru a Lloegr

## Ymgynghoriad ar gynigion y SYG

29 Mehefin 2023

# Cynnwys


**Rhagair gan yr Ystadegydd Gwladol** **1**

**Adran 1: Crynodeb gweithredol** **3**

**Adran 2: Cynigion y SYG ar gyfer ystadegau o'r boblogaeth ac ystadegau cymdeithasol** **6**

2.1 Sut y caiff ystadegau o'r boblogaeth ac ystadegau cymdeithasol eu defnyddio? 6

2.2 Sut y gall y SYG wella'r ffordd y mae'n diwallu'r anghenion hyn yn y dyfodol? 7

2.3 Crynodeb o gynigion y SYG 8

**Adran 3: Cynigion y SYG yn fanwl** **9**

3.1 Ystadegau gwell o'r boblogaeth a mudo 10

3.2 Amcangyfrifon o gartrefi 18

3.3 Nodweddion y boblogaeth a thai 20

3.4 Ymchwil ac astudiaethau hydredol am y boblogaeth 29

3.5 Achyddiaeth a hanes cymdeithasol 31

**Adran 4: Cyflawni gweledigaeth y SYG** **32**

4.1 Ffynonellau data 32

4.2 Diogelwch data 33

4.3 Dulliau 34

4.4 Datblygu dulliau ymhellach dros y degawd nesaf 35

4.5 Parhau i ddiwallu anghenion defnyddwyr 36

4.6 Cynhyrchu allbynnau cydlynol ar gyfer y DU 37

4.7 Ystadegau poblogaeth mewn gwledydd eraill 38

**Adran 5: Dilysu ymchwil a phrosesau** **39**

**Adran 6 Achos economaidd dros newid** **41**

**Adran 7: Risgiau a mesurau lliniaru** **43**

**Adran 8: Y camau nesaf a sut i gymryd rhan** **46**

**Atodiad A: Holiadur** **48**

**Atodiad B: Geirfa** **60**

**Atodiad C: Cymharu allbynnau presennol ac yn y dyfodol yng Nghymru a Lloegr** **63**

# Rhagair gan yr Ystadegydd Gwladol

## Gwella ein hystadegau poblogaeth a mudo er lles y cyhoedd



Mae heriau polisi'r tair blynedd diwethaf wedi dangos yn ddiamheuol gwerth ystadegau, data a dadansoddi wrth lywio'r penderfyniadau pwysicaf rydym yn wynebu fel gwlad.

Ers 1801, mae'r cyfrifiad wedi bod yn rhan hollbwysig o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau cenedlaethol, sydd wedi cael ei gynnal i gyfrif poblogaeth Cymru a Lloegr bob degawd bron. Dros amser, mae'r cwestiynau wedi datblygu er mwyn ymdrin â materion cyfredol, ac felly hefyd y dulliau: yn 2001, gwnaethom symud o ddulliau syml o gyfrif y boblogaeth i amcangyfrifon soffistigedig a gynhyrchir gydag Arolwg Cwmpas y Cyfrifiad ychwanegol. Yn fwy diweddar, rydym wedi defnyddio data o bob rhan o'r sector cyhoeddus i gefnogi gweithrediad y cyfrifiad, a gwnaethom ein cyfrifiad yn un ar lein yn gyntaf yn 2021.

Yn 2014, gosododd Lywodraeth y DU ei uchelgais i gael "cyfrifiadau ar ôl 2021 wedi eu cynnal gan ddefnyddio ffynonellau data eraill a darparu gwybodaeth ystadegol sy'n fwy amserol".[1] Yn 2018 ymrwymodd fy rhagflaenydd i ymateb i'r uchelgais hwn gydag argymhelliad wrth ystyried y cynnydd a wnaed.[2]

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), a llywiwyd gan yr amcan hwn, wedi arwain ar raglen ymchwil er mwyn gwella ein hystadegau poblogaeth a mudo trwy ehangu'r ystod o ffynonellau data rydym yn defnyddio ymhellach. Rydym wedi dangos ein bod yn gallu darparu gwell amcangyfrifon poblogaeth, ac ein bod wedi datblygu dulliau i ddarparu gwybodaeth am y boblogaeth yn amlach ac yn gyflymach. Mae'r dulliau hyn yn adeiladu ar ddatblygiadau sylweddol yng ngwyddoniaeth data a galluogrwydd cyfrifiadura. Byddant yn cynnig mewnwelediad gwell i mewn i'n cymdeithas sydd yn newid yn gyflym, wrth i ddata gweinyddol cyrraedd eu potensial llawn dros y degawd nesaf.

Credaf fod rhaid i'r cyfoeth o ddata sydd ar gael o bob rhan o'r sector cyhoeddus[3] gael ei ddefnyddio i wella bywydau, tra'n parhau i fodloni safonau uchel o ran diogelwch data a moeseg.

---

1 Ymateb y Llywodraeth i argymhelliad yr Ystadegydd Gwladol (Saesneg yn unig)

2 Papur Gwyn Cyfrifiad 2021 'Helpu i Lunio Ein Dyfodol'

3 Data gweinyddol ac iechyd, fel achosion o gysylltiadau â'r system fudd-daliadau neu'r gwasanaeth iechyd.

Mae gwell defnydd o ddata gweinyddol yn thema bwysig yn ein strategaeth bum mlynedd ‘Ystadegau er Lles y Cyhoedd’, ac nid ni yw’r unig rai sy’n teimlo felly: mae’r [‘Strategaeth Data Cenedlaethol’ (Saesneg yn unig)] yn galw am ddull cydlynol o ymdrin â data ym mhob rhan o’r sector cyhoeddus.

Mae angen system ystadegol hyblyg a chynhwysol ar ein cymdeithas ar gyfer yr 21ain ganrif, un sy’n cynnal lefel sefydlog o gywirdeb dros amser ac sy’n addas at y diben wrth ymateb i newid annisgwyl yn amserol. Yn seiliedig ar ein gwaith hyd yma a’r galluogrwydd y gallwn ei brofi, gallwn symud y tu hwnt i’r cylch deng mlynedd o ystadegau o’r boblogaeth sydd wedi bod yn flaenllaw ers canrifoedd, a chyflawni er mwyn diwallu’r angen hwn.

Yn ei ymateb i’r pandemig a chostau byw sy’n cynyddu, mae Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth wedi rhagori. Rydym wedi defnyddio’r wybodaeth sydd ar gael i ni i roi tystiolaeth hollbwysig i’r sawl sy’n gwneud penderfyniadau mewn dim o dro. Mewn llawer o achosion, cyflawnwyd hyn drwy achos untro o rannu data o’r sector cyhoeddus er mwyn diwallu anghenion blaenoriaeth. Ond ni ddylai gwaith mor rhagorol fod yn ad hoc nac yn achos untro yn fy marn i: mae enghraifft wych ein hystadegwyr a’n hymchwilwyr dros y blynyddoedd diwethaf yn dangos manteision posibl cyflymu’r gyfradd newid sydd wedi bod yn digwydd ers degawdau.

Rwyf am ddefnyddio’r momentwm hwn i arddangos gweledigaeth y SYG am system ystadegau wedi’i thrawsnewid a all gefnogi anghenion ystadegwyr a’r rhai sy’n defnyddio data dros y degawdau nesaf. Rydym yn rhan o duedd ryngwladol o wledydd datblygedig sy’n ymchwilio i ddefnyddio data’r sector cyhoeddus ym mhob math o ystadegau.

Wrth gwrs, ni allwn ddibynnu ar ddata gweinyddol yn unig, a gall arolygon chwarae rôl bwysig yn ein hystadegau yn y dyfodol. Ond rydym wedi cyrraedd pwynt lle gellir gofyn cwestiwn difrifol am y rôl y mae’r cyfrifiad yn ei chwarae yn ein system ystadegol.

Bydd ymchwil yn parhau yn ystod y blynyddoedd i ddod, ond rwyf eisoes yn hynod falch o’r gwaith mae ein hystadegwyr wedi’i wneud hyd yma, ac mae’n bleser gennyf rannu’r cynnydd y maent wedi’i wneud. Mae’r ddogfen ymgynghori hon yn nodi ein gweledigaeth yn fanwl, ac rwyf yn croesawu eich barn o ran y blaenoriaethau ar gyfer dyfodol ystadegau o’r boblogaeth, fel y gallent ddiwallu eich anghenion yn y ffordd orau dros y blynyddoedd nesaf. Bydd hyn yn pennu’r meincnod newydd y gall yr ystadegau hyn barhau i ddatblygu ohono i’r dyfodol.



**Yr Athro Syr Ian Diamond**
Ystadegydd Gwladol
Mehefin 2023

ADRAN 1:

# Crynodeb gweithredol

## Gosod data gweinyddol at wraidd ystadegau poblogaeth

Gweledigaeth y SYG yw gwella ei hystadegau fel eu bod yn fwy ymatebol i'r newidiadau cynyddol gyflym sy'n mynd rhagddynt mewn cymdeithas.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn amlinellu cynigion y SYG i greu system gynaliadwy ar gyfer cynhyrchu ystadegau hanfodol a chyfredol am y boblogaeth. I wneud hynny, byddai'r system yn bennaf yn defnyddio data gweinyddol megis data trethi, budd-daliadau a ffiniau, a ategwyd gan ddata arolygon ac ystod ehangach o ffynonellau data. Gallai hyn gwella'r ystadegau y mae'r SYG yn ei chynhyrchu bob blwyddyn yn sylweddol a gallai ddisodli'r ddibyniaeth ac angen presennol ar y cyfrifiad bob deng mlynedd.

**Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn am y ffordd y mae'r cynigion hyn yn diwallu anghenion y rhai sy'n defnyddio ystadegau'r SYG o gymharu â chyfrifiad.**

Mae darparu ystadegau amserol ac o ansawdd uchel am y boblogaeth yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn derbyn y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt o fewn cymunedau ac yn genedlaethol. Mae ystadegau poblogaeth yn darparu tystiolaeth ar gyfer polisïau a gwasanaethau cyhoeddus, gan hefyd helpu busnesau a buddsoddwyr i sicrhau twf economaidd ledled y wlad. Mae'n hollbwysig bod yr ystadegau hyn yn amserol, yn gywir ac yn ddibynadwy, er mwyn adlewyrchu anghenion pawb mewn cymdeithas.

Ar hyn o bryd, y cyfrifiad yw asgwrn cefn yr ystadegau hyn, gan ddarparu darlun cyfoethog o'n cymdeithas ar lefel genedlaethol a lleol bob deng mlynedd. Mae'r SYG yn ategu data'r cyfrifiad bob blwyddyn gan ddata gweinyddol ac o arolygon er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn cymdeithas. O ganlyniad i'r dull hwn, bydd ystadegau yn mynd yn llai cywir dros y degawd ac nid oes manylion lleol ar bynciau pwysig ar gael rhwng blynyddoedd y cyfrifiad.

Yn 2014, gosododd Lywodraeth y DU ei uchelgais i gael "cyfrifiadau ar ôl 2021 wedi eu cynnal gan ddefnyddiol ffynonellau data eraill a darparu gwybodaeth ystadegol sy'n fwy amserol".[4] Yn 2018 ymrwymodd y SYG i ymateb i'r uchelgais hwn gydag argymhelliad i'r Llywodraeth wrth ystyried y cynnydd a wnaed.[5]

4 Ymateb y Llywodraeth i argymhelliad yr Ystadegydd Gwladol (Saesneg yn unig)

5 Papur Gwyn Cyfrifiad 2021 'Helpu i Lunio Ein Dyfodol'



Mae’r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), a llywiwyd gan yr amcan hwn, wedi arwain ar raglen ymchwil er mwyn gwella ein hystadegau poblogaeth a mudo trwy ehangu’n bellach yr ystod o ffynonellau data mae’n ei defnyddio. Mae wedi dangos ei bod yn gallu darparu gwell amcangyfrifon poblogaeth gyda lefel fwy cyson o fanylion a chywirdeb dros amser, ac amcangyfrifon mudo yn seiliedig ar batrymau teithio a arsylwyd yn hytrach na bwriadau datganedig ymatebwyr, gan ddefnyddio data gweinyddol i ymateb i anawsterau amcangyfrif mudo mewnol a rhyngwladol. Mae’r SYG hefyd wedi wedi datblygu dulliau i ddarparu gwybodaeth am y boblogaeth yn amlach ac yn gyflymach. Mae’r dulliau hyn yn adeiladu ar ddatblygiadau sylweddol yng ngwyddoniaeth data a galluogrwydd cyfrifiadura. Byddant yn cynnig mewnwelediad gwell i mewn i’n cymdeithas sydd yn newid yn gyflym, wrth i ddata gweinyddol cyrraedd eu potensial llawn dros y degawd nesaf.

Os caiff ei weithredu, byddai’r system a gynigir yn ymateb yn fwy effeithiol i anghenion newidiol cymdeithas, trwy roi ystadegau poblogaeth i ddefnyddwyr o ansawdd uchel bob blwyddyn. Byddai’n cynnig dealltwriaeth o newidiadau a symudiad ein poblogaeth yn ystod tymhorau ac amseroedd gwahanol. Ar gyfer llawer o bynciau, byddai’n cynnig gwybodaeth llawer mwy lleol nid unwaith y degawd yn unig ond bob blwyddyn, gan ystyried pynciau â lefel newydd o fanylder, ac yn cwmpasu meysydd nad yw’r cyfrifiad yn eu cofnodi, fel incwm.

Mae’r newidiadau hyn yn uchelgeisiol ac mae heriau o hyd o ran gwireddu gweledigaeth y SYG yn llawn ac yn gyflym. Mae’r ddogfen hon yn amlinellu’r risgiau hyn a’r mesurau lliniaru y mae’r SYG yn eu rheoli.

Mae holiadur yr ymgynghoriad yn:

- gofyn am farn defnyddwyr a yw'r cynigion a nodir yn y ddogfen hon yn diwallu eu hanghenion o ran ystadegau o'r boblogaeth, mudo ac ystadegau cymdeithasol
- pa anghenion neu gwestiynau ymchwil eraill sydd gan ddefnyddwyr nad yw'r cynigion hyn yn eu diwallu/ateb
- rhoi'r cyfle i ychwanegu unrhyw sylwadau eraill ar y cynigion

Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn llywio argymhelliad gan Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig, ar gyngor yr Ystadegydd Gwladol. Bydd yr argymhelliad hwn yn manylu ar sut y dylai'r SYG cynhyrchu ystadegau am y boblogaeth yn y dyfodol. Disgwylir ymatebion i'r argymhelliad hwn gan Weinidogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, a Llywodraeth y DU fydd yn gyfrifol am benderfynu a ddylid galw cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr, fel y nodir yn Neddf y Cyfrifiad 1920.

Bydd y penderfyniad yn seiliedig ar yr argymhelliad yn gosod trywydd rhaglen waith y SYG dros y blynyddoedd nesaf, wrth i'r SYG parhau i wella ei hystadegau am y boblogaeth a mudo.

**Fe'ch gwahoddir i ymateb i holiadur yr ymgynghoriad cyn iddo gau ddydd Iau 26 Hydref 2023**. Y gellir ei gwblhau ar-lein neu ar ddiwedd y ddogfen hon. Mae'r ddogfen ymgynghori a'r holiadur hefyd ar gael ar bapur ac ar ffurf print bras ar gais.

Anfonwch ymholiadau at **2023consultation@ons.gov.uk**, Gwasanaethau Cwsmer y SYG ar **01329 444 972**, neu drwy'r post:

Tîm Ymgynghoriadau'r SYG
Ystafell Bost
Swyddfa Ystadegau Gwladol
Segensworth Road
Fareham PO15 5RR

ADRAN 2:

# Cynigion y SYG ar gyfer ystadegau o'r boblogaeth ac ystadegau cymdeithasol

Mae'r adran hon yn esbonio'r angen am ystadegau o'r boblogaeth ac ystadegau cymdeithasol. Mae hefyd yn dangos y ffordd y mae'r SYG yn bwriadu gwella'r allbynnau hyn yn ystod y deng mlynedd nesaf, o gymharu â'r system ystadegol bresennol. Mae Adran 3 yn trafod y cynigion hyn yn fanylach. Mae Adran 4 yn disgrifio sut y byddai'r SYG yn cyflawni'r allbynnau.

## 2.1 Sut y caiff ystadegau o'r boblogaeth ac ystadegau cymdeithasol eu defnyddio?

Yn ein bywydau dyddiol, mae pob un ohonom yn dibynnu ar wasanaethau pwysig. Mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn defnyddio ystadegau am y boblogaeth a mudo i gynllunio a dyrannu adnoddau ar gyfer y gwasanaethau hyn yn effeithiol. Mae ystadegau poblogaeth a mudo yn disgrifio nifer y bobl sy'n byw mewn rhannau gwahanol o'r wlad a sut mae hyn yn newid dros amser. Mae angen y wybodaeth ddiweddaraf am faint y boblogaeth a'r bobl wahanol sy'n rhan ohoni ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Hefyd, mae angen dealltwriaeth hyblyg arnynt o'r ffordd y mae symudiadau a bywydau pobl yn newid dros ddiwrnodau, misoedd a thymhorau. Mae hyn yn helpu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gynllunio gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion newidiol, o gasglu gwastraff i argaeledd mannau gwyrdd.



Mae’r mathau o wasanaethau sydd eu hangen ar gymuned yn dibynnu ar y mathau o bobl sy’n byw ac yn gweithio yno. Gall deall sut gall pethau fel incwm ac iechyd amrywio yn seiliedig ar nodweddion fel grŵp ethnig ac anabledd helpu’r rhai sy’n gwneud penderfyniadau i asesu gwahaniaethau a mynd i’r afael â nhw. Mae hefyd yn golygu y gallant gyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb statudol y Sector Cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae ystadegau am dai a chartrefi yn disgrifio sut a ble mae pobl yn byw. Mae’r rhain yn hollbwysig wrth gynllunio cymorth ar gyfer cartrefi a theuluoedd, gan gynnwys y gwasanaethau lleol a brys pwysig y byddant yn eu defnyddio. Gall dealltwriaeth o’r tai y mae pobl yn byw ynddynt a phwy yw’r bobl hyn helpu i ddangos lefelau’r cymorth y gall fod eu hangen ar bob cartref.

Mae pobl sy’n defnyddio ystadegau’r SYG yn cael budd sylweddol o ddeall sut mae digwyddiadau bywyd gwahanol yn effeithio ar bobl wahanol. Er enghraifft, gall dadansoddi canlyniadau dros amser eu helpu i ddeall symudedd cymdeithasol neu’r canlyniadau i blant â phrofiad o fod mewn gofal. Mae hyn yn helpu i roi dealltwriaeth fanwl i’r rhai sy’n gwneud penderfyniadau o’r hyn sy’n ysgogi gwahaniaethau, a’u canlyniadau, a phennu sut mae eu polisïau yn cael effaith ar fywydau pobl.

## 2.2 Sut y gall y SYG wella’r ffordd y mae’n diwallu’r anghenion hyn yn y dyfodol?

Mae’r defnydd o ddata’r cyfrifiad yn y system ystadegol bresennol yn galluogi’r SYG i gynhyrchu amcangyfrifon manwl a chywir am faint y boblogaeth a’r amrywiaeth o nodweddion poblogaeth[6] unwaith bob deng mlynedd. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd rhwng cyfrifiadau, bydd y lefel o sicrwydd o ran amcangyfrifon o’r boblogaeth yn lleihau dros amser. I gael rhagor o fanylion am hyn, gweler Adran 3.1. Oherwydd hyn, ni all y SYG gynhyrchu ystadegau rheolaidd am lawer o nodweddion islaw lefel ranbarthol, os o gwbl.

Mae’r SYG yn cynnig defnyddio data gweinyddol ochr yn ochr ag ystod ehangach o ffynonellau data er mwyn cynhyrchu ystadegau cyfredol yn amlach. Bydd hyn yn golygu y bydd ystadegau’r SYG yn gywir yn fwy cyson. Mae’r term “data gweinyddol” yn cyfeirio at wybodaeth y mae pobl yn ei rhannu at ddibenion gweinyddol neu weithredol, fel gwybodaeth a gaiff ei rhoi i’r systemau treth, budd-daliadau, iechyd ac addysg.

6 Yn y cyfrifiad mwyaf diweddar, roedd y rhain yn cynnwys statws cyn-filwyr, grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith, crefydd (cwestiwn dewisol), gallu o ran y Gymraeg, galwedigaeth, tai, cyfeiriadedd rhywiol (cwestiwn dewisol), hunaniaeth o ran rhywedd (cwestiwn dewisol), addysg, iechyd, anabledd a gofal di-dâl.

## 2.3 Crynodeb o gynigion y SYG

Dyma grynodeb o'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y cynigion.



### Ystadegau gwell o'r boblogaeth

Mae'r SYG am gynhyrchu ystadegau gwell o'r boblogaeth, gan eu rhyddhau yn gyflymach nag y mae ar hyn o bryd. Byddai'r ystadegau hyn hefyd yn cael eu haddasu i gyfrif y boblogaeth dros gyfnodau gwahanol o amser. Mae Adran 3.1 yn dangos sut y gall yr ystadegau hyn gynnal lefel well o ansawdd bob blwyddyn nag ystadegau presennol y SYG.



### Amcangyfrifon o sut a ble rydym yn byw ac o gyfansoddiad ein cymunedau

Mae'r SYG am ryddhau amcangyfrifon o sut a ble rydym yn byw ac o gyfansoddiad ein cymunedau yn amlach ac yn gyflymach nag sy'n bosibl ar hyn o bryd. Mae Adrannau 3.2 a 3.3.1 yn dangos sut y byddai hyn yn bosibl gan ddefnyddio data gweinyddol.



### Amcangyfrifon yn cymharu nodweddion gwahanol ar lefel leol

Mae'r SYG am ryddhau amcangyfrifon sy'n galluogi pobl i gymharu nodweddion gwahanol yn y boblogaeth ar lefel leol yn amlach nag sy'n bosibl ar hyn o bryd. Mae Adran 3.3.3 yn dangos gwaith ymchwil cynnar y SYG i'r ffordd y gallai data gweinyddol wneud hyn.



### Dadansoddiad o ganlyniadau dros amser

Mae'r SYG am ryddhau dadansoddiad ehangach o ganlyniadau dros amser. Mae Adran 3.4 yn dangos sut mae'r SYG yn defnyddio'r Astudiaeth Carfan o Ganlyniadau Integreiddio Ffoaduriaid i wneud hyn. Mae hefyd yn dangos cynllun lefel uchel y SYG i ehangu'r technegau hyn drwy gynhyrchu Set Ddata Hydredol am y Boblogaeth.

Hyd yn hyn, mae ymchwil y SYG wedi canolbwyntio ar yr hyn y gall y SYG ei gyflawni gan ddefnyddio data gweinyddol yn unig. Er nad yw'r data hyn yn ateb pob cwestiwn ar hyn o bryd, bydd y SYG yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill i wella eu hystod a'u hansawdd dros amser. Bydd gan arolygon rôl bwysig i'w chwarae yn y system ystadegol arfaethedig hefyd. Mae Adran 4 yn disgrifio hyn yn fanylach.

Mae Adran 3 nawr yn ystyried y cynigion y mae'r SYG yn eu gwneud yn fanylach. Ceir cymhariaeth lawn o sut y gallai allbynnau newid yn Atodiad C.

ADRAN 3:

# Cynigion y SYG yn fanwl

Gweledigaeth y SYG yw gwella ei hystadegau fel eu bod yn fwy ymatebol i'r newidiadau cynyddol gyflym rydym yn eu gweld yn ein cymdeithas. Byddai hyn yn cefnogi'r gwaith o ddarparu'r gwasanaethau cyhoeddus gorau posibl ac yn rhoi gwell gwybodaeth i bob math o ddefnyddwyr yn y sector preifat a gwirfoddol.

## Mae holiadur yr ymgynghoriad yn gofyn a yw'r cynigion yn yr adran hon yn diwallu eich anghenion, a pha anghenion nad ydynt yn eu diwallu.

Ar draws ystadegau swyddogol y SYG, mae angen taro cydbwysedd rhwng gwahanol fesurau ansawdd, sy'n cynnwys amlder, amseroldeb, cywirdeb, daearyddiaeth a manylder. Caiff y cydbwysedd hwn ei ysgogi gan anghenion defnyddwyr, ond bydd yn dibynnu ar y ffynonellau a'r dulliau sydd ar gael yn aml hefyd. Un o amcanion yr ymgynghoriad hwn yw galluogi defnyddwyr i ddylanwadu ar flaenoriaethau ac uchelgeisiau'r SYG i sicrhau'r cydbwysedd gorau rhwng y mesurau ansawdd hyn ar gyfer gwahanol fathau o ystadegau.

### Mesurau Ansawdd

Y pum prif gysyniad i'w hystyried o ran ansawdd ystadegau o'r boblogaeth ac ystadegau cymdeithasol yw:

**amlder** – pa mor aml y caiff ystadegau eu cyhoeddi

**amseroldeb** – pa mor fuan y caiff ystadegau eu cyhoeddi ar ôl y dyddiad y maent yn ei ddisgrifio

**cywirdeb** – pa mor agos yw ystadegau at werthoedd gwirioneddol

**daearyddiaeth** – pa mor fanwl yw ystadegau, o ran cwmpas daearyddol

**manylder** – manylder y dosbarthiadau sydd ar gael mewn ystadegau (er enghraifft, a ellir rhannu 'oedran' yn flynyddoedd unigol neu'n fandiau oedran, neu ddosbarthiadau ethnigrwydd yn grwpiau eang neu'n fathau manylach o ethnigrwydd)




## 3.1 Ystadegau gwell o'r boblogaeth a mudo

Mae'r SYG yn cynhyrchu amcangyfrifon rheolaidd am nifer y bobl yng Nghymru a Lloegr, ac mewn ardaloedd lleol o fewn hyn, yn ôl oedran a rhyw.

Drwy'r cyfrifiad, gellir cynhyrchu amcangyfrifon o'r boblogaeth unwaith bob degawd hyd at lefel 'Ardal Gynnyrch', sy'n cwmpasu ardaloedd lleol iawn â rhwng 100 a 625 o bobl. O'r elfennau bach iawn hyn, gellir rhoi ystadegau at ei gilydd ar gyfer ardaloedd daearyddol mwy o faint, fel wardiau, ardaloedd awdurdod lleol neu ranbarthau ac, yn y pen draw, Cymru a Lloegr i gyd.

Y tu allan i'r cyfrifiad, mae'r SYG yn cyhoeddi amcangyfrifon canol blwyddyn ar lefel awdurdod lleol, tua 12 mis ar ôl y dyddiad y maent yn cyfeirio ato. Er enghraifft, cafodd amcangyfrifon canol blwyddyn a oedd yn cyfeirio at y boblogaeth ym mis Mehefin 2020 eu cyhoeddi ym mis Mehefin 2021. Hefyd, fel arfer caiff amcangyfrifon canol blwyddyn eu cyhoeddi ar gyfer ardaloedd daearyddol llai, gan gynnwys ar lefel 'Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is[7]' â rhwng 1,000 a 3,000 o bobl, 15 mis ar ôl y dyddiad y maent yn cyfeirio ato.

Mae amcangyfrifon canol blwyddyn yn seiliedig ar amcangyfrifon a 'drosglwyddwyd' o'r cyfrifiad[8], wedi'u cyfuno â data ar enedigaethau, marwolaethau a mudo. Mae cywirdeb a dibynadwyedd yr amcangyfrifon canol blwyddyn yn uchel yn syth ar ôl pob cyfrifiad, cyn dirywio yn ystod y degawd nes y cânt eu hail-seilio ar ôl y cyfrifiad nesaf, a bydd y cylch hwn yn ailadrodd bob deng mlynedd. Gall yr ansawdd leihau oherwydd heriau amcangyfrif mudo rhyngwladol, cyfrannwr

---

7 Gweler yr eirfa yn Atodiad B

8 Gweler yr eirfa yn Atodiad B

pwysig at ystadegau poblogaeth. Mae amcangyfrifon y SYG o fudo rhyngwladol bellach yn cael eu cyhoeddi gan ddefnyddio data gweinyddol gan y Swyddfa Gartref am symudiadau gwirioneddol a arsylwyd, yn hytrach na bwriadau a gasglwyd gan ymatebwyr yr arolwg. Mae data gweinyddol hefyd yn rhoi cyfle i wella amcangyfrifon mudo mewnol, er enghraifft defnyddio gwybodaeth fwy amserol am symudiadau myfyrwyr prifysgol rhwng cyfeiriadau yn ystod y tymor a chyfeiriadau nad ydynt ynddynt yn ystod y tymor.

Mae ymchwil y SYG yn dangos y gall y SYG gynhyrchu amcangyfrifon dibynadwy o'r boblogaeth a mudo yn seiliedig ar ddata gweinyddol sydd â lefel fwy cyson o ansawdd dros y cyfnod o ddeng mlynedd na'r amcangyfrifon canol blwyddyn presennol.

Mae'r amcangyfrifon hyn sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol yn defnyddio technegau arloesol mewn Model Poblogaeth Dynamig i gynhyrchu amcangyfrif dibynadwy o amrywiaeth o ffynonellau data. Yn hanfodol, mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am faint y boblogaeth a gyfrifir ar wahân bob blwyddyn, yn hytrach na bod y wybodaeth yn cael ei 'throsglwyddo' o'r amcangyfrifon blaenorol (gweler Adran 4.3 am fanylion). Mae'r SYG yn disgwyl y byddai defnyddio'r dull hwn yn golygu y byddai lefelau ansicrwydd amcangyfrifon o'r boblogaeth yn aros yn fwy sefydlog dros amser, o gymharu â'r dull presennol lle mae'r amcangyfrifon canol blwyddyn yn mynd yn fwy ansicr wrth i'r degawd fynd yn ei flaen. Amlinellir y Model Poblogaeth Dynamig, a'r dulliau a ddefnyddir ganddo, yn fanylach yn Adran 4 ac ar wefan y SYG (Saesneg yn unig). Os hoffech ddarllen mwy, gweler y blwch technegol canlynol.


## Dehongli ansicrwydd ar gyfer amcangyfrifon canol blwyddyn o gymharu ag amcangyfrifon y Model Poblogaeth Dynamig

Ni ellir cymharu amcangyfrifon o ansicrwydd yn seiliedig ar y cyfrifiad a'r Model Poblogaeth Dynamig yn uniongyrchol oherwydd bod gwahaniaethau sylfaenol o ran y ffordd y caiff yr amcangyfrifon eu cynhyrchu. Mae gan y ddau fanteision ac anfanteision.

Mae'r dull ar gyfer cynhyrchu cyfyngau ansicrwydd yr amcangyfrifon canol blwyddyn (Saesneg yn unig) yn ymwneud â 'throsglwyddo'r' ansicrwydd flwyddyn ar ôl blwyddyn. Er enghraifft, caiff yr ansicrwydd sy'n bresennol yn amcangyfrifon 2011 ei drosglwyddo i'r amcangyfrif ar gyfer 2012. O ganlyniad, ceir ansicrwydd cronnol mewn amcangyfrifon canol blwyddyn, a bydd felly'n cynyddu dros amser, fel y gwelir yn Ffigur 1.

### **Ffigur 1:** Mae ansicrwydd amcangyfrifon canol blwyddyn yn gronnol ac yn cynyddu ar draws y degawd

Ansicrwydd cyfartalog i amcangyfrifon canol blwyddyn ar lefel awdurdod lleol ledled Cymru a Lloegr, 2011 i 2020





**Ffynhonnell:** Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Caiff lefelau ansicrwydd amcangyfrifon canol blwyddyn eu hailosod gyda phob cyfrifiad newydd, sy'n golygu na fyddai lefel yr ansicrwydd yn parhau i godi. Nid yw data ansicrwydd amcangyfrifon canol blwyddyn 2021 ar gael eto, ond mae data Cyfrifiad 2021 yn rhoi'r ansicrwydd cyfartalog ar lefel awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr ar blws neu finws 1.26 y cant (lefel ansicrwydd debyg i 2011).

Caiff maint y boblogaeth ei amcangyfrif yn wahanol gan ddefnyddio'r Model Poblogaeth Dynamig. Mae ansicrwydd mewn amcangyfrifon yn seiliedig ar y Model Poblogaeth Dynamig yn adlewyrchu'r ansicrwydd sy'n bresennol mewn data stoc ar unrhyw adeg yn bennaf. O ganlyniad, nid yw ansicrwydd y Model Poblogaeth Dynamig yn gronnol yn yr un ffordd ag ansicrwydd yr amcangyfrifon canol blwyddyn, fel y dangosir yn Ffigur 2.

### **Ffigur 2:** Mae ansicrwydd model poblogaeth dynamig yn weddol sefydlog ar draws y degawd, gan gynyddu ychydig gydag amcangyfrifon dros dro

Ansicrwydd cyfartalog ar gyfer amcangyfrifon model poblogaeth dynamig ar lefel awdurdod lleol ledled Cymru a Lloegr, 2011 i 2022




**Ffynhonnell:** Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae sefydlogrwydd cryfach ansicrwydd y Model Poblogaeth Dynamig dros amser yn un o gryfderau'r dull. Mae'r SYG yn dal i ddatblygu'r ffordd rydym yn cynhyrchu ansicrwydd y Model Poblogaeth Dynamig ar gyfer awdurdodau lleol; dim ond dull bras yw hwn ac mae'n debyg ei fod yn tanamcangyfrif ansicrwydd y Model Poblogaeth Dynamig. Yn ogystal, mae ansicrwydd y Model Poblogaeth Dynamig yn is oherwydd y ffordd y mae'r fethodoleg yn darparu cyfres amser lyfn, gan fenthyca cryfder dros amser ac o ffynonellau data gwahanol. Ceir rhagor o wybodaeth am y dull ar gyfer cynhyrchu ansicrwydd y Model Poblogaeth Dynamig ar wefan y SYG (Saesneg yn unig).

Mae Ffigur 2 hefyd yn dangos ansicrwydd cynyddol yn y Model Poblogaeth Dynamig yn 2022.Mae'r cynnydd mewn ansicrwydd yn adlewyrchu'r ffaith mai amcangyfrif dros dro yw amcangyfrif Model Poblogaeth Dynamig 2022 a gynhyrchwyd heb ddata llawn, ond dim ond chwe mis ar ôl y pwynt cyfeirio.

Mae hefyd yn bwysig nodi bod Ffigur 2 yn dangos ansicrwydd a gyfrifwyd gan ddefnyddio data o'r Amcangyfrif Canol Blwyddyn yn seiliedig ar Gyfrifiad 2021 er mwyn addasu ar gyfer unrhyw dan-gwmpasu neu or-gwmpasu yn y data stoc seiliedig ar ddata gweinyddol. Mae ei ansawdd uchel canlyniadol yn lleihau tuedd ac yn gwneud yr amcangyfrifon o'r boblogaeth yn fwy dibynadwy, gan leihau'r ansicrwydd.

Bydd y Model Poblogaeth Dynamig yn defnyddio'r addasiad cwmpas yn seiliedig ar Gyfrifiad 2021 am yr ychydig flynyddoedd nesaf, gan mai dyma fydd y ffynhonnell ddata o'r ansawdd uchaf a fydd ar gael at y diben hwn. Fodd bynnag, tua canol y degawd, bydd ansawdd data Cyfrifiad 2021 yn dechrau lleihau (fel y nodir uchod yn Ffigur 1). Mae'r SYG wedi amlinellu ein dull gweithredu ar gyfer opsiynau addasu cwmpas mwy cynaliadwy yn y dyfodol (Saesneg yn unig). Yn y dyfodol, gyda ffynhonnell ddata wahanol ar gyfer addasu cwmpas, mae'n bosibl y bydd y patrwm ansicrwydd yn wahanol i'r hyn a ddangosir yn Ffigur 2, gyda llai o wahaniaeth rhwng ansicrwydd yr Amcangyfrif Canol Blwyddyn a'r Model Poblogaeth Dynamig. Serch hynny, dylai ansicrwydd amcangyfrifon y Model Poblogaeth Dynamig barhau i fod yn sefydlog dros amser.

Gan ddefnyddio'r Model Poblogaeth Dynamig, mae'r SYG yn cynnig cynhyrchu ystadegau blynyddol o'r boblogaeth sy'n fwy hyblyg. Yn debyg i ystadegau economaidd y SYG, byddai'r amcangyfrifon hyn yn cael eu cyhoeddi fel:

- amcangyfrifon dros dro o'r boblogaeth sy'n fwy amserol ac yn llawer agosach at y dyddiad a ddisgrifir ganddynt (h.y. amcangyfrifon am y flwyddyn hyd at ganol 2024 yn cael eu darparu ym mis Rhagfyr 2024); ac yna
- amcangyfrifon wedi'u diweddaru sy'n fwy dibynadwy ac a gaiff eu darparu o fewn 12 mis pan fydd mwy o ddata ar gael[9].

Byddai'r amcangyfrifon hyn o'r boblogaeth yn cael eu darparu ar lefel awdurdod lleol ochr yn ochr ag amcangyfrifon gwell o fudo rhyngwladol a mewnol sydd hefyd yn seiliedig ar ddata gweinyddol. Mae'r SYG wedi dechrau ymchwilio i ddichonoldeb cynhyrchu amcangyfrifon o'r boblogaeth ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (Saesneg yn unig).

Wrth i'r Model Poblogaeth Dynamig gael ei fireinio ymhellach, bydd y SYG hefyd yn ymchwilio i ddichonoldeb cynhyrchu amcangyfrifon o'r boblogaeth ar gyfer ardaloedd daearyddol llai o'r Model Poblogaeth Dynamig, gan gynnwys ar lefel Ardal Gynnyrch[10], o fewn yr ychydig flynyddoedd nesaf. Dros amser, byddai'r system newydd hon felly'n cynhyrchu amcangyfrifon o'r boblogaeth sy'n sicrhau gwell cydbwysedd rhwng y mesurau ansawdd na'r allbynnau presennol. Byddai'n cyflwyno ystadegau o'r boblogaeth sy'n fwy cywir dros y degawd ac yn cwmpasu poblogaethau cenedlaethol a phoblogaethau ardaloedd bach. Byddai hefyd yn gallu ymgorffori newidiadau yn y boblogaeth fel y maent yn digwydd yn well, gan ddarparu amcangyfrifon dros dro yn fwy amserol a rhoi gwybodaeth yn fuan ar ôl y dyddiad y cyfeirir ato.

### 3.1.1 Amcangyfrif poblogaethau amgen

Ar hyn o bryd, mae'r SYG yn cynhyrchu ystadegau o'r boblogaeth sy'n bodloni diffiniad y Cenhedloedd Unedig ar gyfer preswylfa arferol a mudo rhyngwladol hirdymor. Mae'r diffiniadau hyn yn cyfeirio at bobl sy'n byw yn y wlad am 12 mis neu fwy, gan gynnwys y rheini sydd naill ai'n symud i'r wlad neu'n gadael am y cyfnod hwnnw. Bydd ystadegau sy'n bodloni'r diffiniadau hyn yn parhau i gael eu cynhyrchu.

9 Mae amcangyfrifon dros dro yn defnyddio set gyfyngedig o ddata, sy'n anghyflawn weithiau, ochr yn ochr â rhai rhagdybiaethau am fudo. Mae amcangyfrifon wedi'u diweddaru yn cynnwys data ychwanegol sydd wedi'u rhyddhau a rhagdybiaethau wedi'u mireinio am fudo.

10 Gweler yr eirfa yn Atodiad B

Yn ogystal, mewn ymateb i'r newidiadau dynamig yn y boblogaeth a welir yng nghymdeithas heddiw, mae'r SYG yn ystyried defnyddio data gweinyddol i fesur poblogaethau o breswylwyr dros dro ac amrywiaeth eang o batrymau mudo. Er enghraifft, mudwyr tymhorol neu fudwyr sy'n symud i mewn neu allan o ardaloedd, fel myfyrwyr, p'un a ydynt yn symud yn rhyngwladol neu o un rhan o'r wlad i un arall.


Mae hwn yn faes cymhleth a gellir ei archwilio yn well bellach oherwydd cyfleoedd sydd ar gael drwy ddefnyddio data gweinyddol. Er enghraifft, mae'r SYG yn ymchwilio i'r ffordd y bydd gwybodaeth am deithio a fisâu yn galluogi mwy o hyblygrwydd wrth ymateb i geisiadau am amcangyfrifon mudo rhyngwladol dros gyfnod penodol. Mae'r cyhoeddiad Amcangyfrifon poblogaeth a mudo: archwilio diffiniadau amgen (Saesneg yn unig) yn disgrifio diffiniadau amgen o fudo a phoblogaeth, gan gynnwys enghreifftiau o waith parhaus, yn ogystal â gofyn am awgrymiadau defnyddwyr ar gyfer allbynnau defnyddiol a fydd yn cael effaith.

Mae gwaith yn y maes hwn yn helpu'r SYG i ystyried y wybodaeth y gall ei darparu am y 'boblogaeth sy'n bresennol' dros gyfnod penodol. Gall adlewyrchu arosiadau llawer byrrach mewn ardal: er enghraifft, newid tymhorol yn y boblogaeth gan gynnwys gwaith tymhorol a thwristiaeth, y defnydd o ail gartrefi, sut mae poblogaethau yn ystod yr wythnos yn cymharu â'r penwythnos, neu sut mae poblogaeth yn ystod y dydd yn cymharu â phoblogaeth gyda'r nos neu liw nos. Byddai deall y 'boblogaeth sy'n bresennol' yn llywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau lleol yn well, fel casglu gwastraff yng nghanol dinasoedd neu gynllunio ar gyfer gofal iechyd mewn cyrchfannau twristiaeth.

Mae ymchwil y SYG eisoes wedi dangos y potensial i amcangyfrif y 'boblogaeth sy'n bresennol' mewn ardal fach yn ôl amser o'r dydd (Saesneg yn unig), gan ddefnyddio data gweinyddol wedi'u modelu ar y cyd â data ffôn symudol dienw a chyfanredol ar symudiad torfeydd. Mae Ffigur 3 yn dangos cymhariaeth ar gyfer Abertawe rhwng (i) amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth, sy'n cynrychioli'r boblogaeth breswyl arferol dros nos, a (ii) y boblogaeth am 2pm ar ddiwrnod o'r wythnos gan ddefnyddio data gweinyddol wedi'u modelu. Mae'n dangos patrwm symudiad clir o ardaloedd preswyl i ardaloedd amhreswyl, fel y marina (cynnydd o 53%) a chanol y ddinas (cynnydd o 267%). Gellir gweld y gwahaniaeth mwyaf yng ngorllewin dinas Abertawe mewn ardal sy'n cynnwys campws prifysgol ac ysbyty (cynnydd o 1,568%). Er nad yw'r ystadegau arbrofol hyn yn cynnwys rhai is-boblogaethau allweddol a mathau o symudedd y boblogaeth sydd eu hangen i gynhyrchu amcangyfrifon cywir o'r 'boblogaeth sy'n bresennol', er enghraifft twristiaid a phobl sy'n teithio ar drên, maent yn nodi'r tro cyntaf i'r SYG ddefnyddio data ffonau symudol i greu ystadegau am y boblogaeth yn ystod y dydd.

**Ffigur 3:** Amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ystod y dydd yn dangos poblogaeth sylweddol fwy ar gyfer canol dinas Abertawe nag amcangyfrifon canol blwyddyn

Gwahaniaeth canrannol rhwng amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ystod y dydd ac amcangyfrifon canol blwyddyn, yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yn Abertawe, 2019




**Ffynhonnell:** Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Noder (ffigur 3): Mae gwahaniaethau positif yn dangos bod yr amcangyfrif o'r boblogaeth yn ystod y dydd yn fwy nag amcangyfrifon canol blwyddyn, mae gwahaniaethau negatif yn dangos bod yr amcangyfrif o'r boblogaeth yn ystod y dydd yn llai.

## Mae holiadur yr ymgynghoriad yn gofyn am anghenion defnyddwyr am ddata ar y 'boblogaeth sy'n bresennol' ar gyfer cyfnodau cyfeirio gwahanol.

## 3.2 Amcangyfrifon o gartrefi

Mae'r cyfrifiad yn darparu amcangyfrifon o gartrefi hyd at ardaloedd bach gyda chyfnod o 18 mis o oedi bob deng mlynedd. Yn ystod y blynyddoedd rhwng cyfrifiadau, mae'r SYG yn cyhoeddi amcangyfrifon blynyddol o nifer y cartrefi a theuluoedd a'u cyfansoddiad, gan gynnwys ar gyfer y DU, ei cenhedloedd cyfansoddol a rhanbarthau Lloegr. Caiff yr amcangyfrifon hyn eu cynhyrchu o'r Arolwg o'r Llafurlu ac maent yn darparu gwybodaeth am dueddiadau yn nifer y cartrefi a theuluoedd a'u math, gyda phlant dibynnol a hebddynt, pobl sy'n byw ar eu pen eu hunain a phobl mewn llety sy'n cael ei rannu, wedi'u rhannu yn ôl maint y cartref a'r math o gartref.

Ar hyn o bryd, mae'r SYG yn defnyddio diffiniad o gartref sy'n golygu un person sy'n byw ar ei ben ei hun neu grŵp o bobl sy'n byw yn yr un cyfeiriad, p'un a ydynt yn perthyn i'w gilydd ai peidio, ac sy'n rhannu cyfleusterau coginio ac ystafell fyw, lolfa neu le bwyta. Gall cartref felly gynnwys person yn byw ar ei ben ei hun, un teulu, mwy nag un teulu neu ddim teulu yn achos grŵp o bobl nad ydynt yn perthyn i'w gilydd.

Mae data gweinyddol yn clystyru unigolion mewn cyfeiriadau a gallant adrodd ar nodweddion y bobl sy'n byw yn y cyfeiriadau hynny. Mae'r cyfeiriadau wedi'u meddiannu hyn yn rhoi cynrychioliad agos o gartrefi ac mae llawer o wledydd sydd â dull seiliedig ar gofrestr o gynhyrchu ystadegau tebyg i gyfrifiad (gweler Adran 4.7) yn defnyddio diffiniadau o gartref, cyfeiriad ac annedd yn gyfnewidiol.




Mewn rhai achosion, bydd gwahaniaeth rhwng y ddau ddull, er enghraifft, pan fydd sawl cartref yn yr un cyfeiriad. Roedd llai nag 1% o'r cyfeiriadau a ymatebodd i Gyfrifiad 2021 yn cynnwys mwy nag un cartref, felly mae cyfeiriadau wedi'u meddiannu yn gyfystyr ag un cartref mewn mwy na 99% o achosion.

Mae Ffigur 4 yn cymharu ein hystadegau am gyfeiriadau wedi'u meddiannu sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol ag amcangyfrifon o gartrefi yn seiliedig ar y cyfrifiad. Mae'n dangos mai cyfeiriadau wedi'u meddiannu ag un neu ddau breswylydd oedd fwyaf cyffredin ymhlith cyfeiriadau wedi'u meddiannu ledled Cymru a Lloegr yn 2021. Yn yr un modd, cartrefi ag un neu ddau breswylydd oedd y ffurfiant cartref mwyaf cyffredin a gofnodwyd ar Ddiwrnod y Cyfrifiad yn 2021. Gellir esbonio'r mân wahaniaethau rhwng y setiau data gan dan-gwmpasu'r boblogaeth o gymharu â'r cyfrifiad yn y set ddata weinyddol. Mae hyn oherwydd bod rhai eiddo wedi'u grwpio gyda'i gilydd o ganlyniad i gyfeiriadau tebyg a diffyg methodoleg amcangyfrif. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, bydd y SYG yn datblygu methodoleg amcangyfrif ac yn gwella ansawdd y wybodaeth am gyfeiriadau a'r dulliau ar gyfer grwpio unigolion mewn cyfeiriadau.

### **Ffigur 4:** Mae ystadegau am gyfeiriadau wedi'u meddiannu ac ystadegau'r cyfrifiad am gartrefi yn dangos gwahaniaethau cyfyngedig ar lefel genedlaethol

Cymhariaeth o ddata am gyfeiriadau wedi'u meddiannu yn seiliedig ar ddata gweinyddol â data'r cyfrifiad am gartrefi, Cymru a Lloegr, 2021




**Ffynhonnell:** Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae trafodaethau blaenorol â defnyddwyr am y diffiniad o gartref wedi tynnu sylw at fanteision ac anfanteision mewn perthynas â diffiniad sy'n seiliedig ar gyfeiriadau. Bydd rhaglen ymchwil y SYG yn ystyried technegau modelu i ddarparu amcangyfrifon sy'n gyson â'r diffiniad uchod o gartref, ochr yn ochr ag ystadegau sy'n seiliedig ar gyfeiriadau. Bydd y SYG hefyd yn adeiladu ar wybodaeth bresennol er mwyn deall yn well y mathau o bobl y bydd defnyddio diffiniad o gyfeiriad, yn hytrach na chartref, yn effeithio arnynt.

Mae eisoes yn bosibl disgrifio oedran a rhyw pobl mewn cyfeiriad a all ddarparu dealltwriaeth o gartrefi â sawl cenhedlaeth. Bydd y SYG yn ystyried sut y gall ddefnyddio perthnasoedd teuluol a pherthynas aelodau o'r cartref â'i gilydd mewn data gweinyddol a data o arolygon yn ogystal â phrosesau modelu i fynd gam ymhellach i gynhyrchu amcangyfrifon sy'n cyfateb yn well i ddiffiniad y cyfrifiad o gartref.

Yn ogystal, bydd y SYG yn ystyried sut i gyfuno'r ffynonellau data gweinyddol a ddefnyddir i gynhyrchu cyfanswm y boblogaeth breswyl arferol yn ôl y math o gartref (gweler Adran 4.3) gyda ffynonellau penodol am breswylwyr mewn sefydliadau cymunedol fel cartrefi gofal, neuaddau myfyrwyr a charchardai. Bydd hyn yn ei galluogi i gynhyrchu amcangyfrifon o faint y boblogaeth sy'n byw yn y rhain ac mewn lleoliadau eraill nad ydynt yn gartrefi.

## 3.3 Nodweddion y boblogaeth a thai

Yn ogystal ag amcangyfrifon o faint y boblogaeth a chartrefi, mae'r SYG yn cynhyrchu amrywiaeth o wybodaeth am nodweddion y boblogaeth (er enghraifft, grŵp ethnig) a thai (er enghraifft, math o eiddo).

Bob deng mlynedd, mae'r cyfrifiad yn darparu amcangyfrifon manwl iawn yn ôl un nodwedd, er enghraifft, y nifer sy'n dewis pob grŵp ethnig. Mae hefyd yn galluogi'r SYG i ddangos dwy nodwedd wahanol neu fwy gyda'i gilydd, er enghraifft, canlyniadau addysgol neu iechyd pobl o grwpiau ethnig gwahanol. Mae Cyfrifiad 2021 wedi cynhyrchu oddeutu pum biliwn o bwyntiau data yn ei holl allbynnau yn erbyn y nodweddion gwahanol hyn, y gellir eu harchwilio drwy gyfleuster 'creu set ddata arbennig (Saesneg yn unig)' y SYG. Fodd bynnag, dim ond unwaith bob degawd y mae'r data hyn ar gael. Byddai cadw'r model presennol ar gyfer cynhyrchu ystadegau o'r boblogaeth ac ystadegau cymdeithasol yn golygu y byddai'r data lleol nesaf ar gael yn 2033.

Yn ystod y blynyddoedd rhwng cyfrifiadau, mae'r SYG yn casglu rhai o'r nodweddion hyn mewn arolygon, sy'n golygu y gellir cynhyrchu amcangyfrifon ar lefel ranbarthol ac, mewn nifer bach o achosion, ar gyfer ardaloedd daearyddol llai. Mae'r manylder cyfyngedig hwn yn effeithio ar allu'r SYG i ddarparu tystiolaeth gref ar gyfer y rhai sy'n gwneud penderfyniadau am amrywiaeth o nodweddion y boblogaeth, gan gynnwys nodweddion[11], gwarchodedig, yn ystod y blynyddoedd rhwng cyfrifiadau.

Roedd sicrhau bod data ar gael ar gyfer grwpiau a phoblogaethau perthnasol ar lefelau daearyddol gwahanol yn un o'r egwyddorion allweddol i wella cynwysoldeb mewn data ac ystadegau a ddatblygwyd gan banel o arbenigwyr annibynnol (Saesneg yn unig). Mae'r SYG yn ymrwymedig i wella cynwysoldeb,

11 Gweler yr eirfa yn Atodiad B

fel y dangosir yn ei hadroddiad blynyddol (Saesneg yn unig) ar gynnydd a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023. Mae gwneud mwy o ddefnydd o ddata gweinyddol er mwyn darparu ystadegau mwy rheolaidd ac amserol yn rhan o waith y SYG i wella cynwysoldeb.

Drwy wneud mwy o ddefnydd o ddata gweinyddol ynghyd â data o arolygon, gallai'r SYG ddarparu ystadegau mwy rheolaidd ac amserol ar gyfer y rhan fwyaf o nodweddion ar lefel awdurdod lleol ac ar lefel is sy'n cynnig lefel ragweladwy a sefydlog o fanylder yn ystod y degawd. Gall defnyddio'r data hyn pan fyddant ar gael helpu i dargedu arolygon yn well a chynhyrchu amcangyfrifon cynyddol fanwl.

Mae data gweinyddol hefyd yn cynnig posibiliadau o ran gwaith dadansoddi manylach a mwy craff drwy ddarparu gwybodaeth fwy cyson, gwrthrychol neu dechnegol na holiadur hunanlenwi, er enghraifft am iechyd ac anabledd, neu wybodaeth fanylach neu fwy cyflawn na'r hyn y gellir ei gasglu yn ffurflen gyfyngedig y cyfrifiad, er enghraifft am addysg. Mae defnyddio amrywiaeth ehangach o ffynonellau hefyd yn cynnig y potensial o wella dangosyddion cyfansawdd, fel statws economaidd-gymdeithasol.

Bydd effaith hyn yn amrywio ar draws yr amrywiaeth eang o nodweddion a meysydd pwnc, fel y nodir yn yr adrannau canlynol.

### 3.3.1 Nodweddion unigol

Fel y trafodwyd, mae rhai o amcangyfrifon y SYG yn disgrifio un nodwedd, er enghraifft, nifer y cyn-filwyr mewn gwahanol rannau o'r wlad. Nod y SYG yw darparu'r math hwn o amcangyfrif ar gyfer yr holl bynciau ei bod yn casglu gwybodaeth amdanynt drwy gyfrifiad fel arfer, ar amlder ac ar lefel ddaearyddol sy'n adlewyrchu anghenion defnyddwyr. Byddai hefyd yn ehangu y tu hwnt i'r amrywiaeth o bynciau yn holiadur mwyaf diweddar y cyfrifiad er mwyn cwmpasu pynciau newydd fel incwm, ac yn parhau'n hyblyg i gwmpasu pynciau newydd sydd eu hangen ar ddefnyddwyr wrth iddynt ddod i'r amlwg.

Rydym eisoes wedi dangos gallu'r SYG i gynhyrchu cyfrifon yn ôl nodweddion gan ddefnyddio data gweinyddol (Saesneg yn unig), gan gynnwys ar gyfer grŵp ethnig, incwm, tai, statws marchnad lafur a chyn-filwyr. Mae'r pynciau hyn wedi cael eu blaenoriaethu ar gyfer ymchwil oherwydd cyfuniad o angen sylweddol gan ddefnyddwyr a nodwyd mewn ymgynghoriadau blaenorol, a'u hargaeledd mewn ffynonellau data gweinyddol.

Mae'r ymchwil a gynhyrchwyd hyd yma wedi gosod y sylfeini ar gyfer cynhyrchu amcangyfrifon blynyddol yn seiliedig ar ddata gweinyddol am amrywiaeth hyd yn oed ehangach o nodweddion yn ystod y degawd nesaf.


Mae Ffigurau 5 a 6 yn cymharu ystadegau seiliedig ar ddata gweinyddol y SYG am ethnigrwydd ym Manceinion a Cheredigion â data'r cyfrifiad. Maent yn dangos bod yr ystadegau ethnigrwydd sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol yn debyg i'r ystadegau ethnigrwydd sy'n seiliedig ar y cyfrifiad. Fodd bynnag, mae rhai

gwahaniaethau yn yr ystadegau ethnigrwydd sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol, gan gynnwys canrannau uwch o'r rhai yn y grŵp ethnig gwyn, a chanrannau is o'r rhai yn y grwpiau ethnig Asiaidd, du ac arall.

Nid yw amcangyfrifon sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol yn cwmpasu'r boblogaeth yn llawn. Mae'r gwahaniaethau a ddisgrifir yn dangos bod angen gwella'r broses o gwmpasu'r boblogaeth yn y ffynonellau data a'r arferion casglu a ddefnyddir i gynhyrchu'r ystadegau hyn, a defnyddio dulliau i addasu ar gyfer data coll[12] a materion ansawdd eraill. Gallai defnyddio ffynonellau ychwanegol, gan gynnwys arolygon, wella ystadegau ethnigrwydd yn seiliedig ar ddata gweinyddol. Gellir cael rhagor o fanylion yn y cyhoeddiad Trawsnewid ystadegau am y boblogaeth a mudo: diweddariad ar nodweddion poblogaeth, Cymru a Lloegr, 2023 (Saesneg yn unig). Mae Adrannau 4.3 a 4.4 yn disgrifio sut mae'r SYG yn cynhyrchu'r ystadegau hyn, a sut y byddant yn cael eu datblygu dros y blynyddoedd nesaf.

### **Ffigur 5:** Mae ystadegau ethnigrwydd yn seiliedig ar ddata gweinyddol a'r cyfrifiad yn dangos gwahaniaethau bach ar lefel awdurdod lleol

Poblogaeth ystadegau ethnigrwydd yn seiliedig ar ddata gweinyddol yn ôl 5 categori ethnigrwydd, Manceinion, 2021





**Ffynhonnell:** Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

12 Gweler yr eirfa yn Atodiad B

**Ffigur 6:** Mae ystadegau ethnigrwydd yn seiliedig ar ddata gweinyddol a'r cyfrifiad yn dangos gwahaniaethau bach ar lefel awdurdod lleol

Poblogaeth ystadegau ethnigrwydd yn seiliedig ar ddata gweinyddol yn ôl 5 categori ethnigrwydd, Ceredigion, 2021




**Ffynhonnell:** Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae'r SYG hefyd wedi ymchwilio i'r cydlyniant rhwng newidynnau sy'n ymwneud ag iechyd o'r cyfrifiad a mesurau afiachedd sy'n deillio o gofnodion iechyd electronig (Saesneg yn unig). Mae'r ymchwil hon wedi cymharu gallu'r mesurau hyn i ragfynegi afiachedd yn y boblogaeth yn ystod pandemig COVID-19.

I gael rhagor o wybodaeth am nodau'r SYG ar gyfer pynciau eraill, gweler Adran 3.3.3.

### 3.3.2 Cyfuno dwy nodwedd neu fwy

Gan ddefnyddio data'r cyfrifiad, mae'r SYG hefyd yn cynhyrchu ystadegau sy'n cyflwyno dwy nodwedd wahanol neu fwy gyda'i gilydd, er mwyn helpu i ddeall canlyniadau neu amgylchiadau bywyd grwpiau gwahanol o'r boblogaeth. Gan ddefnyddio data gweinyddol a chymhwyso dulliau yn briodol, mae modd cynhyrchu'r math hwn o wybodaeth yn llawer mwy rheolaidd ar gyfer llawer o bynciau. Mae'r gyfran eang o'r boblogaeth a gwmpesir mewn data gweinyddol o gymharu â data o arolygon yn golygu y gellir gwneud hyn ar lefelau daearyddol is ac ar gyfer grwpiau poblogaeth llai na'r hyn sy'n bosibl ar hyn o bryd drwy arolygon yn unig. Uchelgais y SYG yw i'r rhain gael eu diweddaru'n flynyddol lle mae'r data cyfrannol ar gael i gyflawni hyn, gan alluogi defnyddwyr i archwilio'r data diweddaraf.


Mae'r SYG wedi dangos ymarferoldeb defnyddio data gweinyddol fel y man cychwyn ar gyfer amcangyfrifon mwy rheolaidd sy'n dangos dwy nodwedd neu fwy gyda'i gilydd ar y lefel is-genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am dai yn ôl ethnigrwydd yn seiliedig ar ddata gweinyddol (Saesneg yn unig) (gweler Ffigurau 7 ac 8) a gwybodaeth am incwm yn ôl ethnigrwydd (Saesneg yn unig) yn seiliedig ar ddata gweinyddol.

Mae Ffigurau 7 ac 8 yn dangos sut y gall y SYG defnyddio data gweinyddol i archwilio'r mathau o gartrefi y mae pobl o grwpiau ethnig gwahanol yn byw ynddynt. Gwneir hyn drwy'r Set Ddata seiliedig ar Ddata Gweinyddol ar gyfer Tai yn ôl Ethnigrwydd, fersiwn 2.0. Mae'r data yn seiliedig ar gyfeiriadau wedi'u meddiannu, fel y'u disgrifir yn Adran 3.2.

Yn Ffigur 7, mae'r Set Ddata seiliedig ar Ddata Gweinyddol ar gyfer Tai yn ôl Ethnigrwydd, fersiwn 2.0 yn dangos mai tai teras yw'r math mwyaf cyffredin o gartref ar gyfer pob grŵp ethnig ym Manceinion.

## **Ffigur 7:** Gall data gweinyddol ddangos dadansoddiad o'r math o gartref yn ôl ethnigrwydd ar lefel awdurdod lleol

Math o gartref yn ôl grŵp ethnig, Manceinion, 2021





**Ffynhonnell:** Y Swyddfa Tstadegau Gwladol

Yn Ffigur 8, mae'r Set Ddata seiliedig ar Ddata Gweinyddol ar gyfer Tai yn ôl Ethnigrwydd, fersiwn 2.0 yn dangos bod bron hanner y bobl yn byw mewn eiddo ar wahân. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau yn y mathau o gartrefi sydd wedi'u meddiannu gan grwpiau ethnig gwahanol, ac unigolion yn y grŵp ethnig gwyn sydd fwyaf tebygol o fyw mewn eiddo ar wahân o'r holl grwpiau ethnig. Roedd y rhai yn y grŵp ethnig du yn fwy tebygol na grwpiau eraill o fyw mewn tai semi.

Mae'r data hefyd yn seiliedig ar gyfeiriadau wedi'u meddiannu, fel y'u disgrifir yn Adran 3.2.

### **Ffigur 8:** Gall data gweinyddol ddangos dadansoddiad o'r math o gartref yn ôl ethnigrwydd ar lefel awdurdod lleol

Math o gartref yn ôl grŵp ethnig, Ceredigion, 2021




**Ffynhonnell:** Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Noder (ffigur 8): Mae rhai categorïau yn ymddangos o dan neu dros 100% oherwydd bod y ffigurau yn cynnwys gwerthoedd wedi'u hatal a'u talgrynnu. Mae gwerthoedd ar gyfer rhai categorïau wedi'u hatal pan na ellir darparu'r data am resymau cyfrinachedd.

Nid oes ethnigrwydd wedi'i nodi ar gyfer rhai pobl mewn ffynonellau gweinyddol, sy'n golygu nad ydynt wedi'u cynrychioli'n llawn yn yr ystadegau seiliedig ar ddata gweinyddol ar gyfer tai yn ôl ethnigrwydd. Fel y disgrifir yn Adran 3.3.1, mae angen gwella'r broses o gwmpasu'r boblogaeth yn y ffynonellau data a ddefnyddir i gynhyrchu'r ystadegau hyn, a defnyddio dulliau i addasu ar gyfer data coll[13] a materion ansawdd eraill fel eu bod yn gwbl gynrychiadol.

Mae Adran 4 yn ystyried sut y byddai'r SYG yn datblygu o'i sefyllfa bresennol i allbynnau rheolaidd dros y degawd nesaf.

---

13 Gweler yr eirfa yn Atodiad B


### 3.3.3 Adeiladu tuag at ystadegau nodweddion cynhwysfawr

Mae'r SYG wedi dangos y gellir defnyddio data gweinyddol i gynhyrchu gwybodaeth am amrywiaeth o nodweddion. Hyd yn hyn, dim ond ychydig o'r ddealltwriaeth y gallai data gweinyddol ei darparu sydd wedi'i gwireddu. Bydd gweithio gyda phartneriaid ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yn allweddol i ehangu a datblygu'r ystod o ffynonellau data gweinyddol a gaiff eu casglu a'u defnyddio. Bydd y SYG yn parhau i geisio ehangu a chryfhau ei rhwydwaith o gyflenwyr data er mwyn gwella ansawdd a pherthnasedd yr ystadegau seiliedig ar ddata gweinyddol y gall eu cynnig.

Pe bai'r cynigion yn y ddogfen hon yn cael eu derbyn, ar gyfer llawer o bynciau, byddai arolygon yn parhau i chwarae rôl wrth i'r SYG weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod data gweinyddol yn cyflawni eu potensial llawn. Byddai'r graddau y byddai angen data o arolygon yn amrywio o bwnc i bwnc. Byddai manteisio ar allu arolygon yn arbennig o bwysig ar gyfer pynciau fel gwlad enedigol, crefydd, y Gymraeg, prif iaith, gofal di-dâl, galwedigaeth, hunaniaeth genedlaethol, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd.

Gan adeiladu ar yr ymchwil a ddisgrifiwyd yn yr adrannau blaenorol, ac ystyried argaeledd data gweinyddol, amcan sylfaenol y SYG ar gyfer pob pwnc a gwmpesir gan y cyfrifiad a hyn o bryd yw darparu ystadegau blynyddol ar lefel awdurdod lleol â chyfnod o 12 mis o oedi o'r dyddiad cyfeirio[14]. Byddai hefyd yn ceisio ehangu y tu hwnt i'r ystod lawn o bynciau yn y cyfrifiad.

Yn seiliedig ar y ffynonellau data sydd ar gael ar hyn o bryd, mae rhai pynciau lle gall y SYG fynd ymhellach na'r llinell sylfaen, ac mae rhai eraill lle nad yw data gweinyddol ar gael ar hyn o bryd i fodloni'r llinell sylfaen. Mae'r gwahaniaethau hyn wedi'u nodi yn yr adran ganlynol.



#### Pynciau y mae'r amcan sylfaenol yn berthnasol iddynt

Mae'r amcan sylfaenol yn gwbl berthnasol i statws marchnad lafur, cyn-filwyr, perchnogaeth cerbydau, cyfansoddiad cartrefi, poblogaethau sefydliadau cymunedol a phoblogaethau arbennig, deiliadaeth tai (er enghraifft, bod yn berchen ar eiddo neu rentu), anabledd a statws priodasol a phartneriaeth sifil. O'r llinell sylfaen hon, nod y SYG yw adeiladu tuag at allbynnau ar y lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is fanylach[15] ar gyfer y pynciau hyn.

14 Gweler yr eirfa yn Atodiad B

15 Gweler yr eirfa yn Atodiad B



### Pynciau â mwy o fanylder daearyddol na’r llinell sylfaen

Ar gyfer rhai pynciau, gallai allbynnau gael amlder ac amseroldeb tebyg, ond gyda mwy o fanylion daearyddol na’r llinell sylfaen, gydag allbynnau ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is. Mae hyn yn gymwys i bynciau oedran, rhyw, incwm, grŵp ethnig, nodweddion tai (heb gynnwys deiliadaeth), iechyd ac addysg.



### Pynciau â llai o amlder ac amseroldeb na’r llinell sylfaen

Ar gyfer pynciau eraill, gallai allbynnau fod yn llai rheolaidd na’r llinell sylfaen ond yn fwy rheolaidd nag amcangyfrifon y cyfrifiad, bob dwy flynedd ar y mwyaf, gyda chyfnod hirach o oedi o tua 15 mis. Mae hyn yn gymwys i’r pwnc gwlad enedigol.




### Pynciau lle mae angen ymchwil bellach

Mae angen ymchwil bellach i bennu’r cwmpas ar gyfer ystadegau mwy rheolaidd ac amserol ar bynciau hunaniaeth genedlaethol, hunaniaeth o ran rhywedd y dosbarthiad economaidd-gymdeithasol ystadegau gwladol (NS-SEC) [Saesneg yn unig], galwedigaeth, crefydd, prif iaith, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, a chyfrifoldebau gofalu.

Mae’r SYG yn cydnabod pwysigrwydd ystadegau am y Gymraeg i ddefnyddwyr ystadegol yng Nghymru ac mae’n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i nodi ffynonellau priodol ar gyfer cynhyrchu’r ystadegau hyn yn y dyfodol.

Mae’r SYG yn croesawu adborth ar ofynion defnyddwyr o ran ystadegau ar y pynciau hyn yn erbyn y mesurau ansawdd a restrir yn Adran 3. Bydd ymatebion i’r ymgynghoriad hwn yn dylanwadu ar amcanion y SYG ar gyfer y pynciau hyn. Fel rhan o’i thrawsnewidiad, hoffai’r SYG gynnwys hyblygrwydd i ymateb i anghenion defnyddwyr am ystadegau ar bynciau newydd hefyd, y tu hwnt i’r rhai hynny a gwmpesir gan y cyfrifiad ar hyn o bryd, gan alluogi’r SYG i ystyried cynhyrchu ystadegau ar newidynnau newydd yn amlach nag unwaith bob deng mlynedd.

Fel y dangoswyd yn Adran 3.3.2, gellir cysylltu setiau data gweinyddol i gynhyrchu allbynnau sy’n dwyn ynghyd gyfuniadau o bynciau, fel ethnigrwydd a thai. Byddai’r allbynnau hyn yn parhau i gael eu datblygu, gan gwmpasu ystod eang o bynciau, er enghraifft addysg a statws marchnad lafur, a byddai pynciau yn cael eu blaenoriaethu yn seiliedig ar anghenion defnyddwyr. Gyda’r wybodaeth a geir drwy gyfuno pynciau, mae gan y SYG y potensial i archwilio canlyniadau cymdeithasol ar gyfer grwpiau gwahanol o’r boblogaeth mewn ffordd fwy amserol ac ar lefel fanylach, er enghraifft, cyfuno newidynnau sy’n bwydo i mewn i ddosbarthiadau economaidd-gymdeithasol a mesurau amddifadedd.


Drwy ehangu a datblygu’r ystod o setiau data gweinyddol sydd ar gael iddi ymhellach, gallai gwaith dadansoddi’r SYG edrych y tu hwnt i gwestiynau unigol y cyfrifiad. Er enghraifft, i gynhyrchu gwybodaeth fanylach am y ffordd y gall

presenoldeb cyflyrau iechyd unigol amrywio yn ôl nodweddion eraill. Bydd hefyd yn ein galluogi i ymateb yn brydlon i gwestiynau eraill sy'n berthnasol ar y pryd.

Mae'r SYG yn parhau i ymchwilio i [argaeledd ffynonellau gweinyddol ar gyfer y pynciau a ddisgrifir yn yr adran hon (Saesneg yn unig)](), a'u cwmpas. Nodir asesiad cyfredol o'r ffynonellau hyn yn Ffigur 9.

### **Ffigur 9:** Ymchwil i argaeledd ffynonellau data gweinyddol a'u cwmpas disgwyliedig yn amrywio yn ôl pwnc

Sgôr ymchwil (o ymchwil archwiliadol i ymchwil aeddfed) a chwmpas (o gwmpas cyfyngedig i gwmpas llawn) ffynonellau data gweinyddol ar gyfer nodweddion



Bydd rhaglen ymchwil y SYG yn dilyn argymhelliad yr Ystadegydd Gwladol yn datblygu'r strategaeth ar gyfer cynhyrchu'r ystadegau hyn yn y dyfodol yn llawn. Bydd hyn yn llywio sut y gellid casglu'r data hyn, a all gynnwys proses gasglu newydd drwy ffynonellau data gweinyddol neu arolygon cymdeithasol, a'r dulliau a all helpu i sicrhau amcangyfrifon cadarn. (Gweler Adran 4 am fanylion.)

Mae Adrannau 3.3.1 a 3.3.2 yn dangos ymarferoldeb cynhyrchu amcangyfrifon o nodweddion yn seiliedig ar ddata gweinyddol yn llawer mwy rheolaidd na'r hyn y gellir ei gyflawni drwy'r cyfrifiad, ond mae cyfyngiadau i lefel y manylder y gellir ei sicrhau ar gyfer rhai pynciau gan ddefnyddio data gweinyddol yn gyntaf. Er enghraifft, wrth gynhyrchu ystadegau am grŵp ethnig gan ddefnyddio data gweinyddol, ar hyn o bryd mae modd cynhyrchu ystadegau ar gyfer 19 o grwpiau ethnig. Mae hyn yn wahanol i'r cyfrifiad, lle mae modd cynhyrchu ystadegau ar 287 o grwpiau ethnig. Bydd ymatebion defnyddwyr i'r ymgynghoriad hwn yn cynyddu ein dealltwriaeth o'r cydbwysedd priodol rhwng amlder, amseroldeb, lefel ddaearyddol a manylder ein hamcangyfrifon o nodweddion er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr. Bydd hyn yn llywio ein gwaith yn y dyfodol i ymchwilio i ddichonoldeb cynhyrchu amcangyfrifon manylach sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol, a lle gallai fod angen defnyddio arolygon neu ffynonellau eraill.

## 3.4 Ymchwil ac astudiaethau hydredol am y boblogaeth

Yn ogystal â bod yn gyfarwydd â chynhyrchu cyhoeddiadau ar gyfer defnyddwyr, gall ymchwilwyr achrededig hefyd gael gafael ar ddata dad-adnabyddedig[16] o'r cyfrifiad yn ddiogel a chânt eu defnyddio yng ngwaith ymchwil y SYG ei hun, lle gellir dangos achos er budd y cyhoedd ac arfer orau foesegol. Byddai'r ddau beth hyn yn parhau mewn system ar ei newydd wedd. Gellir cael rhagor o wybodaeth am ddiogelu data ac ymchwil yn Adran 4.

Mae Astudiaeth Hydredol bresennol y SYG yn seiliedig ar sampl o un y cant o boblogaeth Cymru a Lloegr, gan gysylltu data'r cyfrifiad a data gweinyddol o 1971 hyd at heddiw. Mae wedi cefnogi ymchwil ar draws sawl thema, gan gynnwys heneiddio, darparu gofal, amddifadedd, ethnigrwydd, gwahaniaethau iechyd, mudo a symudedd cymdeithasol. Mae cynlluniau pellach yn cynnwys Set Ddata Hydredol am y Boblogaeth a fyddai'n galluogi astudiaeth hydredol am y boblogaeth breswyl gyfan. Gan ddechrau gyda data craidd dienw o Gyfrifiad 2021, wedi'u diweddaru er mwyn cyfrif am enedigaethau, marwolaethau a mudo, gellid ei chysylltu â ffynonellau eraill er mwyn astudio'r boblogaeth neu is-grwpiau. Dangoswyd gwerth set ddata hydredol ar raddfa fawr yn ystod pandemig y coronafeirws pan alluogodd y dull gweithredu hwn ddealltwriaeth o wahaniaethau o ran marwolaethau o ganlyniad i COVID-19 i bobl â nodweddion

16 Gweler yr eirfa yn Atodiad B

(Saesneg yn unig) neu alwedigaethau (Saesneg yn unig) gwahanol, gan roi gwybodaeth i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a allai eu helpu i ddiogelu grwpiau o'r boblogaeth â ffactorau risg uwch.

I ddangos dichonoldeb cynnal Set Ddata Hydredol am y Boblogaeth er mwyn sicrhau amrywiaeth o fuddion, mae'r SYG, ar y cyd â'r Swyddfa Gartref, wedi creu'r Astudiaeth Carfan o Ganlyniadau Integreiddio Ffoaduriaid (Saesneg yn unig). Mae'r astudiaeth hon yn archwilio canlyniadau integreiddio i ffoaduriaid sydd wedi'u hailsefydlu drwy'r Cynlluniau Ailsefydlu Pobl a Phlant Agored i Niwed a ffoaduriaid y rhoddwyd lloches iddynt yng Nghymru a Lloegr rhwng 2015 a 2020. Mae'n defnyddio data gweinyddol cysylltiol er mwyn dangos canlyniadau integreiddio, er enghraifft lle roedd ffoaduriaid yn byw yng Nghymru a Lloegr yn gyntaf, a sut maent wedi symud o gwmpas ers iddynt gyrraedd. Gall ein helpu i ddeall mwy am dai ffoaduriaid, a'r math o gartrefi y maent yn fwyaf tebygol o fyw ynddynt, a gorlenwi neu danlenwi, drwy gysylltu â data Cyfrifiad 2021. Defnyddir prosesau hunangofnodi i ddadansoddi nodweddion fel statws iechyd ac anabledd ffoaduriaid. Bwriedir gwneud cysylltiadau pellach er mwyn deall canlyniadau'r farchnad lafur a mynediad at fudd-daliadau, yn ogystal â chanlyniadau addysg ac iechyd. Gweledigaeth y SYG yw i'r Astudiaeth Carfan o Ganlyniadau Integreiddio Ffoaduriaid gael ei hintegreiddio â'r Set Ddata Hydredol am y Boblogaeth, gan alluogi cymariaethau rhwng y bobl sydd wedi'u cynnwys ynddi a grwpiau poblogaeth eraill, er enghraifft, y boblogaeth mudwyr gyffredinol.



## 3.5 Achyddiaeth a hanes cymdeithasol

Rôl y SYG yw cynhyrchu ystadegau o ansawdd uchel er budd y cyhoedd. Prif ddiben y cyfrifiad erioed yw creu ystadegau i lywio penderfyniadau. Fodd bynnag, mae'r SYG yn ymwybodol o werth y data hyn i achrestryddion ac ymchwilwyr hanesyddol a theuluol pan gaiff yr ymatebion eu cyhoeddi fel cofnodion hanesyddol yn y pen draw.

Ar hyn o bryd, caiff gwybodaeth bersonol o'r cyfrifiad ei chadw'n ddiogel am 100 mlynedd cyn y bydd ar gael i'r cyhoedd a bydd hyn yn parhau ar gyfer pob cyfrifiad hyd at ac yn cynnwys Cyfrifiad 2021.[17].

Mewn system wedi'i thrawsnewid, byddai'r SYG yn defnyddio data gweinyddol o amrywiaeth o ffynonellau fel sylfaen ei hystadegau. Mae'r SYG yn ymgysylltu â phartneriaid yn Llywodraeth y DU a'r Archifau Gwladol i asesu'r posibiliadau ar gyfer cadw cofnodion o setiau data ystadegol yn seiliedig ar ddata gweinyddol mewn ffordd debyg.

Mae cynigion y SYG ar gyfer Set Ddata Hydredol am y Boblogaeth yn cyflwyno'r cyfle i gadw cofnod hanesyddol cyfoethog o'r boblogaeth i gefnogi ymchwil achyddol a chymdeithasol yn y dyfodol. Gallai cofnodion o'r fath fod ar ffurf cipluniau mwy rheolaidd o ddata yn ôl unigolyn a chyfeiriad y gellid eu cysylltu'n hydredol hefyd. Er y byddent yn cwmpasu'r boblogaeth gyfan o hyd, byddai'r cofnodion a fyddai ar gael yn fwy cyfoethog mewn rhai achosion nag eraill, gan ddefnyddio'r amrywiaeth o ffynonellau a allai ehangu dros amser a hefyd ymateb i faterion perthnasol ar y pryd.

Byddai data a fyddai'n cael eu cadw at ddibenion hanesyddol yn cael eu storio'n ddiogel ac yn foesegol, ar wahân i unrhyw ddynodwyr personol, nes ei bod yn briodol eu cyhoeddi fel cofnodion hanesyddol.

### Mae holiadur yr ymgynghoriad yn gofyn pa wybodaeth sy'n bwysig ei chadw ar gyfer ymchwilwyr yn y dyfodol.

17 Nid yw hyn yn cynnwys Cyfrifiad 1931; dinistriwyd holiaduron y cyfrifiad hwn mewn tân. Ni chynhaliwyd cyfrifiad yn 1941 oherwydd yr Ail Ryfel Byd.

ADRAN 4:

# Cyflawni gweledigaeth y SYG

Er mwyn cynhyrchu'r amcangyfrifon dibynadwy sydd eu hangen ar ei defnyddwyr, mae'r SYG yn defnyddio amrywiaeth o ddata o ffynonellau gwahanol. Fel y gwelir yn Adran 1, mae hyn yn canolbwyntio ar y cyfrifiad ar hyn o bryd fel ymarfer casglu data mawr iawn a gynhelir unwaith bob degawd ac a ategir gan arolygon a data gweinyddol. Yn y dyfodol, gallai'r system fod yn seiliedig ar ddata gweinyddol yn bennaf, wedi'u hategu gan arolygon.

Byddai'r system seiliedig ar ddata gweinyddol hon yn gryf oherwydd byddai'n defnyddio llawer o ffynonellau, a hynny'n amlach. Byddai hyn yn galluogi'r SYG i gynhyrchu ystadegau gwell am y boblogaeth a bod yn fwy ymatebol i newidiadau yn y boblogaeth a'i phroffil. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r ffynonellau, y dulliau a'r prosesau cysylltiedig. Mae rhagor o fanylion ar gael ar wefan y SYG.

## 4.1 Ffynonellau data

Mae'r term "data gweinyddol" yn cyfeirio at wybodaeth a gaiff ei chasglu pan fydd unigolion yn rhyngweithio â gwasanaethau cyhoeddus. Yn y dyfodol, byddai'r SYG yn defnyddio gwybodaeth ddethol, yn ddiogel, o amrywiaeth o ffynonellau data gweinyddol, gan gynnwys y systemau treth, budd-daliadau, addysg ac iechyd,[18] ar y cyd ag arolygon cymdeithasol (fel y disgrifir yn Adrannau 4.3 a 4.4).

Y rheswm y gall y SYG wneud gwell defnydd o ddata gweinyddol heddiw yw Deddf yr Economi Ddigidol, a basiwyd gan Senedd y DU yn 2017. Diwygiodd y Ddeddf hon Ddeddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007, gan alluogi gwahanol rannau o'r sector cyhoeddus i rannu data gweinyddol yn ddiogel â'r SYG at ddibenion ystadegau ac ymchwil.

I gael gafael ar y data hyn a'u defnyddio, mae'r SYG yn ymrwymo i gytundeb â pherchennog y data, sy'n nodi pa wybodaeth a gaiff ei rhannu a gall osod cyfyngiadau ar y ffordd y gellir defnyddio'r data. Ym mhob achos, bydd y SYG ond yn ceisio cael gafael ar y data sydd eu hangen arni o set ddata benodol. Er enghraifft, gellir rhannu gwybodaeth am gysylltiadau pobl â'r gwasanaeth iechyd ar gyfer amcangyfrifon o'r boblogaeth, ond ni fydd y SYG yn cael y wybodaeth sensitif am yr hyn a ddigwyddodd yn ystod y cysylltiadau hynny. Mae hyn yn golygu mai dim ond y data penodol sydd eu hangen i gynhyrchu ystadegau neu gefnogi ymchwil gaiff eu rhannu â'r SYG.

18 Mae'r SYG yn dryloyw o ran y data mae'n eu defnyddio ac at ba ddiben rydym yn eu defnyddio – gweler gwefan y SYG i weld rhestr o'r data gweinyddol o fewn cwmpas y gwaith hwn (Saesneg yn unig).

Os bydd y SYG yn nodi ffyrdd o wella ansawdd data gweinyddol, bydd yn rhannu'r wybodaeth hon â chyflenwr y data. Drwy wneud hyn, mae'r SYG yn creu dolenni adborth cadarnhaol er mwyn gwella ansawdd data gweinyddol. Mae hyn yn cynnig manteision i'r SYG, y cyflenwr ac i ddefnyddwyr ystadegol eraill y data hyn.

## 4.2 Diogelwch data

Mae gan y SYG hanes sicr o ddiogelu data sensitif, wedi'i feithrin dros sawl degawd o gynnal y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr, ac arolygon rheolaidd mwyaf y DU o gartrefi.

Mae'r SYG yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, felly pan gaiff ffyrdd newydd o ddefnyddio data personol eu hystyried, bydd yn sicrhau bod y defnydd yn angenrheidiol, yn gymesur ac yn dryloyw cyn parhau. Lle nodir risgiau posibl, bydd y SYG hefyd yn cynhyrchu Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data yn ôl yr angen er mwyn deall a lliniaru'r risgiau hyn.

Mae preifatrwydd a diogelwch yn bwysig i'r SYG, ac i ymddiriedaeth y cyhoedd yn ei gwaith. Mae'r SYG yn diogelu data gweinyddol i'r un safonau uchel â data'r cyfrifiad: mae'n ddyletswydd gyfreithiol i gynnal cyfrinachedd o dan Ddeddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007 a Deddf Diogelu Data 2018, ac mae cosbau cryf ar waith i atal unrhyw un rhag datgelu neu geisio datgelu data personol. Ar gyfer yr holl ystadegau y mae y SYG yn eu cyhoeddi, mae'n rhoi prosesau ar waith a elwir yn ddulliau rheoli datgelu ystadegol i atal y posibilrwydd o adnabod unigolyn, cartref neu fusnes, neu nodweddion sy'n gysylltiedig â nhw. Mae hyn yn ddyletswydd gyfreithiol a moesegol, yn un o ofynion y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau (Saesneg yn unig), aac yn egwyddor ryngwladol ar gyfer ymarfer ystadegol da a chaiff ei dilyn bob amser.

Ynghyd â'r ystadegau a'r dadansoddiadau y mae'n eu cynhyrchu er budd y cyhoedd, mae'r SYG yn cyfrannu budd pellach o'r data a ddelir ganddi drwy ddarparu data dad-adnabyddedig[19] i ymchwilwyr allanol achrededig (Saesneg yn unig) mewn Amgylchedd Ymchwil Dibynadwy (sef y Gwasanaeth Ymchwil Ddiogel [Saesneg yn unig]) ar hyn o bryd. Caiff yr holl ddata a ddarperir gan y SYG i'r ymchwilwyr achrededig hyn eu diogelu gan y Pum Peth Diogel (neu'r 'Five Safes'), sef fframwaith diogelu data a gydnabyddir yn rhyngwladol sy'n rhoi rheolaethau llym iawn ar fynediad at ddata, er mwyn sicrhau:

- **Data** diogel: mae camau wedi'u cymryd i dynnu dynodwyr unigolion
- **Pobl** ddiogel: caiff ymchwilwyr eu hachredu i gynnal ymchwil, ar ôl cael hyfforddiant gorfodol, meithrin sgiliau technegol a deall pwysigrwydd cyfrinachedd data

19 Gweler yr eirfa yn Atodiad B

- **Prosiectau** diogel: mae'r defnydd o ddata yn briodol, yn foesegol ac er budd y cyhoedd
- **Lleoliadau** diogel: gwneir ymchwil mewn Amgylchedd Ymchwil Dibynadwy fel bod data yn ddiogel
- **Allbynnau** diogel: mae prosesau ar waith i sicrhau na ellir defnyddio allbynnau a gynhyrchir o'r data i adnabod unigolion

## 4.3 Dulliau

I gynhyrchu'r amrywiaeth o ystadegau a ddisgrifir yn Adran 2, mae'r SYG wedi datblygu system i ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer amcangyfrifon o'r boblogaeth, a'r gallu i ddarparu ystadegau manwl ar gyfer amrywiaeth eang o nodweddion.

### Amcangyfrifon o'r Boblogaeth yn Seiliedig ar Ddata Gweinyddol

Gall y SYG gynhyrchu amcangyfrifon o'r boblogaeth yn seiliedig ar ddata gweinyddol gan ddefnyddio Model Poblogaeth Dynamig, sy'n cynhyrchu amcangyfrif drwy ddefnyddio (i) y boblogaeth a gofnodwyd yn y Set Ddata Ystadegol o'r Boblogaeth (gweler y paragraff dilynol), (ii) arolwg cwmpas rheolaidd a (iii) gwybodaeth am fudo o ffynonellau eraill. Gan ddefnyddio dulliau modelu yn seiliedig ar dueddiadau blaenorol y boblogaeth, mae'n cynhyrchu amcangyfrifon o'r boblogaeth sy'n cyrraedd safonau ansawdd y SYG[20], hyd at lefel awdurdod lleol ar hyn o bryd. Oherwydd ei bod yn defnyddio'r Set Ddata Ystadegol o'r Boblogaeth a gaiff ei diweddaru'n rheolaidd fel mesur safonol, disgwylir y bydd yr amcangyfrifon a gynhyrchir yn fwy cywir dros amser ac yn llai tebygol o ailadrodd unrhyw duedd neu wall yn amcangyfrifon blynyddoedd blaenorol na'r amcangyfrifon canol blwyddyn a gaiff eu trosglwyddo ar hyn o bryd.

### Set Ddata Ystadegol o'r Boblogaeth

Cynrychioliad blynyddol, dienw o'r boblogaeth sydd fel arfer yn byw yng Nghymru a Lloegr ar y lefel leol yw'r Set Ddata Ystadegol o'r Boblogaeth. Caiff ei chreu gan ddefnyddio data gweinyddol o amrywiaeth o ffynonellau a gaiff eu diweddaru'n rheolaidd, gan gynnwys data am dreth a budd-daliadau. Mae'n debyg i'r cyfrifon o'r boblogaeth y mae'r SYG yn eu cael o'r cyfrifiad, ond caiff ei diweddaru'n flynyddol, ac mae'n cynnig sylfaen gref neu "fesur safonol" ar gyfer cynhyrchu amcangyfrifon o'r boblogaeth yn seiliedig ar ddata gweinyddol.

### Ystadegau am Nodweddion yn Seiliedig ar Ddata Gweinyddol

Ar hyn o bryd, caiff ystadegau am nodweddion yn seiliedig ar ddata gweinyddol eu cynhyrchu drwy gysylltu'r Set Ddata Ystadegol o'r Boblogaeth yn ddiogel â gwybodaeth ddad-adnabyddedig am nodweddion y boblogaeth (fel grŵp

20 Gweler yr eirfa yn Atodiad B

ethnig, incwm neu dai) a ddelir mewn ffynonellau data gweinyddol perthnasol. Mae gwneud hyn ar gyfer un nodwedd yn cynhyrchu ystadegau unamryweb, gan ddangos sut y caiff pobl o bob rhan o'r wlad, neu mewn ardaloedd lleol, eu dosbarthu o fewn y nodwedd honno (er enghraifft, cyfansoddiad grŵp ethnig ardal awdurdod lleol). Mae cyfuno dwy nodwedd neu fwy (a all fod yn yr un set ddata, neu o sawl ffynhonnell) yn golygu y gall y SYG gynhyrchu ystadegau amlamryweb, er mwyn deall y ffordd y mae dau newidyn yn rhyngweithio, fel incwm a grŵp ethnig. Yn y dyfodol, byddai'r amcangyfrifon hyn yn cael eu datblygu ymhellach gyda model arolwg, fel y disgrifir yn gryno yn Adran 4.4. Ar gyfer rhai pynciau, nid yw ffynonellau gweinyddol wedi cyflawni eu potensial llawn eto, a byddai'r SYG yn parhau i ddefnyddio arolygon er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr, gan addasu meintiau samplau yn ôl yr angen.

Yn ogystal â chynhyrchu amcangyfrifon, gall y SYG hwyluso gwaith dadansoddi er mwyn deall canlyniadau dros amser yn well ar gyfer grwpiau penodol o'r boblogaeth, a sut y gall hyn amrywio mewn perthynas â nodweddion gwahanol, fel y canlyniadau i blant â phrofiad o fod mewn gofal. Fel y disgrifir yn Adran 3.4, gellid cyflawni hyn drwy drosglwyddo ystod gyfyngedig o ddata dienw o Gyfrifiad 2021, wedi'u diweddaru â gwybodaeth am enedigaethau, marwolaethau a mudo, gan greu Set Ddata Hydredol am y Boblogaeth. Yn amodol ar gymeradwyaeth cyflenwyr a chymeradwyaeth foesegol, gellid darparu asedau data hydredol dienw'r Set Ddata Hydredol am y Boblogaeth i ymchwilwyr achrededig yn ddiogel drwy'r Gwasanaeth Ymchwil Ddiogel. Hefyd, mae gan y Set Ddata Hydredol am y Boblogaeth y gallu i ddarparu ffordd well o gysylltu data er mwyn cynhyrchu amcangyfrifon o nodweddion yn seiliedig ar ddata gweinyddol.

Ceir rhagor o wybodaeth am y dulliau hyn a'r ymchwil a gynhyrchir gan eu defnyddio ar wefan y SYG (Saesneg yn unig).

## 4.4 Datblygu dulliau ymhellach dros y degawd nesaf

Mae ymchwil hyd yma wedi dangos dichonoldeb y dulliau hyn fel profion o gysyniad. Y camau nesaf ar gyfer gwaith y SYG fyddai datblygu'r amcangyfrifon o'r boblogaeth a mudo yn seiliedig ar ddata gweinyddol, a dadansoddiadau yn ôl nifer o nodweddion, yn Ystadegau Swyddogol a gyhoeddir yn rheolaidd, gyda blaenoriaethau a gaiff eu llywio gan yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Yn seiliedig ar ganlyniadau'r ymgynghoriad hwn a gwaith ymgysylltu ehangach, bydd adborth gan ddefnyddwyr yn llywio cynnydd y SYG tuag at y mathau o allbynnau a ddisgrifir yn Adrannau 2.2 a 3.

Yn yr un modd, mae'r SYG yn cynnig parhau i ehangu'r ystadegau sydd ar gael am nodweddion. Bydd y SYG yn parhau i ddatblygu ei dealltwriaeth o anghenion defnyddwyr, i ba raddau y gall data gweinyddol ddiwallu'r rhain, a'r rôl y dylai arolygon ei chwarae mewn model hirdymor. Byddai hyn yn helpu'r SYG i gynhyrchu allbynnau ymchwil ar y pynciau y mae gan ddefnyddwyr ddiddordeb

ynddynt ac, yn y pen draw, ar amrywiaeth ehangach o bynciau na'r hyn a gwmpesir gan gyfrifiad.

Hyd yn hyn, mae'r SYG wedi canolbwyntio ar ddangos y gellir cynhyrchu amcangyfrifon mwy rheolaidd ac amserol o'r boblogaeth a mudo gan ddefnyddio data gweinyddol. Mae'r SYG yn cynnig adeiladu ar y gwaith hwn drwy ddatblygu fframweithiau ystadegol a ysgogir gan ansawdd ar gyfer cyfuno data gweinyddol a data o arolygon (Saesneg yn unig) i gynhyrchu amcangyfrifon o'r boblogaeth a nodweddion. Bydd ymchwil i asesu ansawdd setiau data gweinyddol unigol a rhai cysylltiol (Saesneg yn unig) yn arbennig o bwysig ar gyfer mewnbynnau i'r Model Poblogaeth Dynamig, lle caiff gwybodaeth am ansawdd cymharol y ffynonellau data ei defnyddio i gyfrifo amcangyfrifon.

Wrth i'r SYG ehangu'r ystod o allbynnau seiliedig ar ddata gweinyddol y mae'n eu cynhyrchu, bydd yn parhau i ddatblygu dulliau o fesur ansicrwydd[21] ystadegol yr allbynnau newydd. Bydd hyn yn galluogi defnyddwyr i ystyried eu blaenoriaethau ar gyfer cydbwyso'r mesurau ansawdd gwahanol, ac yn llywio'r ffordd y mae'r SYG yn datblygu allbynnau newydd. Mae rhywfaint o'r gwaith hwn eisoes yn mynd rhagddo. Mae'r SYG wedi amlinellu ei chynigion ar gyfer mesur ansicrwydd mewn amcangyfrifon o fudo rhyngwladol (Saesneg yn unig), n seiliedig ar ddata gweinyddol, a datblygu opsiynau strategol ar gyfer gwella cwmpas amcangyfrifon o'r boblogaeth yn seiliedig ar ddata gweinyddol (Saesneg yn unig). Ceir rhagor o wybodaeth am waith ansawdd y SYG, ar wefan y SYG (Saesneg yn unig).

## 4.5 Parhau i ddiwallu anghenion defnyddwyr

Mae'r SYG yn ymgysylltu â defnyddwyr yn ddyddiol ond, ar hyn o bryd, mae'n dilyn cylch deng mlynedd o ymgysylltu ac ymgynghori ynghylch anghenion defnyddwyr a datblygiad cwestiynau ar gyfer ystadegau am y boblogaeth ac ystadegau cymdeithasol, gan gyfateb i gylch unwaith bob degawd y cyfrifiad. Er bod gwaith ar ddeall anghenion defnyddwyr a datblygu dyluniad cwestiynau yn broses barhaus, mae'n naturiol bod cynllun y cyfrifiad a'r ffordd y caiff ei gyflawni yn chwarae rôl bwysig yn y cylch deng mlynedd o ymgysylltu â defnyddwyr. Yn fwyaf diweddar, cynhaliwyd ymgynghoriad ar bynciau yn 2015 ar gyfer Cyfrifiad 2021, bron chwe blynedd cyn Diwrnod y Cyfrifiad, a chadarnhawyd argymhellion yn seiliedig ar ymchwil a'r ymgynghoriad hwn mewn Papur Gwyn yn 2018.

Byddai ystyried symud i system nad yw'n dibynnu ar gyfrifiad yn rhoi'r cyfle i'r SYG ailwampio ei dull o ymgysylltu â defnyddwyr. Byddai hyn yn golygu y gallai ymateb i ofynion gwahanol fathau o ddefnyddwyr ar gyfer pynciau gwahanol. Byddai hyn yn cyd-fynd â'r dyhead i gael tystiolaeth gyflym ac ymatebol am faterion sy'n berthnasol ar y pryd, yn ogystal â chanolbwyntio'n rhagweithiol ar bynciau eang sy'n dod i'r amlwg yn seiliedig ar anghenion defnyddwyr.

21 Gweler yr eirfa yn Atodiad B

Yn ogystal ag ymateb i anghenion datblygol defnyddwyr, byddai'r SYG hefyd am achub ar gyfleoedd wrth i ffynonellau data gweinyddol gael eu diweddaru er mwyn diwallu anghenion presennol yn well, a manteisio ar ffynonellau data newydd pan fyddant ar gael. Mae'r SYG yn cynnal deialog agored gyda chyflenwyr data er mwyn deall eu newidiadau gweithredol, a byddai'n parhau i weithio mewn partneriaeth â nhw er mwyn sicrhau bod y data a gesglir yn ffynhonnell mor berthnasol a dibynadwy ar gyfer ystadegau â phosibl.

Byddai'r model ymgysylltu yn y dyfodol yn cynnwys yr amrywiaeth lawn o ddefnyddwyr er mwyn adlewyrchu'r gymdeithas gyfan a chynnal yr edefyn euraidd o anghenion defnyddwyr i allbynnau. Byddai'r model ar ffurf amlochrog, drwy waith ymgysylltu parhaus yn ogystal â thrwy ddeialog fwy penodol.

## 4.6 Cynhyrchu allbynnau cydlynol ar gyfer y DU

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon (NISRA), Cofnodion Cenedlaethol yr Alban (NRS) a Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am gynhyrchu ystadegau am y boblogaeth ledled y DU.

Mae ystadegau cyson, cydlynol a hygyrch ar gyfer y DU, ar gyfer pob cenedl ac ar gyfer ardaloedd daearyddol o fewn pob cenedl, o werth sylweddol a phenodol i ddefnyddwyr. Ar hyn o bryd, mae'r SYG yn paratoi allbynnau cyfrifiad o gyfrifiad 2021 yng Ngogledd Iwerddon, Cymru a Lloegr, a chyfrifiad 2022 yn yr Alban. Fel gyda'r trefniadau presennol ar gyfer y cyfrifiad, mae diwallu'r angen am allbynnau cydlynol ar gyfer y DU wedi bod yn ffactor pwysig wrth ddatblygu cynigion trawsnewid y SYG, wrth gydnabod anghenion gwahanol defnyddwyr yng nghenhedloedd gwahanol y DU. Mae'r SYG wedi ceisio ymgynghori a chydweithio'n agos â chydweithwyr o bob rhan o'r DU ac yn y gweinyddiaethau datganoledig drwy gydol y broses hon.

Ym mis Tachwedd 2022, llofnododd yr Ystadegydd Gwladol a Phrif Ystadegwyr a Chofrestrwyr Cyffredinol y gweinyddiaethau datganoledig gytundeb cydweithio ar gyfer dyfodol ystadegau am y boblogaeth, mudo, tai ac ystadegau cymdeithasol ledled y DU (Saesneg yn unig). Mae'r datganiad hwn yn adeiladu ar achosion blaenorol o gydweithio ac yn ffurfioli blaenoriaeth gyffredin i gynhyrchu amcangyfrifon o'r boblogaeth sy'n hygyrch, yn amserol ac yn gydlynol, ac y mae defnyddwyr yn eu deall, nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn wedi cael eu paratoi gan y SYG ar gyfer Cymru a Lloegr, ac mae Llywodraeth Cymru yn bartner yn y gwaith hwn. Caiff penderfyniadau ar wahân, a gaiff eu llywio gan NRS a NISRA yn y drefn honno, eu gwneud gan Lywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn unol â'u hamserlenni eu hunain.

## 4.7 Ystadegau poblogaeth mewn gwledydd eraill

Yn wahanol i'r DU ac UDA, lle mae cyfrifiadau wedi cael eu cynnal bob deng mlynedd yn draddodiadol, mae rhai gwledydd yn cynnal cyfrifiad bob pum mlynedd. Mae'r rhain yn cynnwys Japan, Awstralia, Iwerddon, Seland Newydd a Chanada.

Mae sawl enghraifft o wledydd nad oes ganddynt gyfrifiad 'traddodiadol' o gwbl, ac maent wedi dibynnu'n bennaf ar ddata gweinyddol ar gyfer eu hystadegau poblogaeth ers degawdau. Mae'r rhain yn cynnwys yr Iseldiroedd, Norwy a Denmarc. Mae'r holl enghreifftiau presennol o hyn yn dibynnu ar gofrestr o'r boblogaeth er mwyn gweithio, sy'n golygu bod gan bob person sy'n byw yn y gwledydd hynny ryw fath o rif adnabod personol sy'n golygu y gellir cysylltu data sy'n ymwneud â phob unigolyn yn hawdd ar draws sawl ffynhonnell. Fel arfer bydd y cofrestrau hyn yn orfodol a bydd angen i ddinasyddion gofrestru a dadgofrestru pan fyddant yn cyrraedd neu'n gadael y wlad, neu pan fyddant yn symud yn lleol. Mae hyn yn creu sylfaen dda ar gyfer cynhyrchu amcangyfrifon o'r boblogaeth. Fodd bynnag, nid ydynt yn berffaith, ac maent yn wynebu heriau tebyg i'r rhai a geir gyda ffynonellau gweinyddol o hyd – fel cynnydd yn y rhestr pan na fydd pobl yn dadgofrestru, a gwahaniaethau diffiniadol gyda'r boblogaeth sy'n cael ei hamcangyfrif. Hefyd, yn aml ni fyddant yn cynnwys gwybodaeth am strwythurau cartrefi a chydberthnasau teuluol, ac fel arfer bydd gan wledydd sydd â dull seiliedig ar gofrestr o gynhyrchu ystadegau cyfrifiad ddiffiniad seiliedig ar gyfeiriadau neu anheddau ar gyfer ystadegau cartrefi (fel y disgrifir yn Adran 3.2).

Mae'r SYG yn datblygu system lle nad oes angen cofrestr o'r boblogaeth, gan weithredu yn hytrach drwy gysylltu llawer o ffynonellau data dad-adnabyddedig a dulliau amcangyfrif dilynol, gan fanteisio ar gryfderau amrywiaeth o ffynonellau data er mwyn sicrhau y caiff ystadegau cadarn ac o ansawdd uchel eu cynhyrchu. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys prosesau modelu ac addasu ystadegol drwy arolygon sampl. Pe bai cofrestr o'r boblogaeth yn y DU, byddai'n lleihau rhai o'r heriau mae'r SYG yn eu hwynebu o ran cysylltu data o sawl ffynhonnell sydd â dynodwyr unigryw gwahanol (fel rhif y GIG, rhif Yswiriant Gwladol, Rhif Adnabod Disgybl), a gallai wella ansawdd amcangyfrifon mudo (mewnol a rhyngwladol) – ond byddai'r un heriau'n bodoli â'r hyn a drafodwyd mewn perthynas â chofrestrau o'r blaen.

Fel y SYG, mae sefydliadau ystadegol mewn sawl gwlad yn ystyried newid i gyfrifiadau 'hybrid' sy'n manteisio ar amrywiaeth o ffynonellau data gweinyddol a data o arolygon, er enghraifft yn Seland Newydd, UDA, Canada ac Awstralia. Mae'r SYG yn cyfrannu'n rheolaidd at drafodaethau o fewn y gymuned ystadegol ryngwladol. Un wlad a symudodd o gyfrifiad traddodiadol i'r model hybrid yn ddiweddar yw'r Eidal yn 2018. Mae ei system ystadegol newydd yn defnyddio amrywiaeth o ddata gweinyddol ar y cyd ag arolygon sampl blynyddol gorfodol, a ategir gan gofrestr o'r boblogaeth.

ADRAN 5:

# Dilysu ymchwil a phrosesau

Mae'r SYG yn annibynnol ar y Llywodraeth, ac mae ganddi amcan statudol i gynhyrchu ystadegau er budd y cyhoedd. Mae'r SYG yn cydymffurfio â'r Cod a Ymarfer ar gyfer Ystadegau (Saesneg yn unig) ac ag Egwyddorion Sylfaenol y Cenhedloedd Unedig ar Ystadegau Swyddogol. Mae egwyddorion arweiniol y Cod, sef Dibynadwyedd, Ansawdd a Gwerth, yn sail i'r ffordd y mae'r SYG yn cynhyrchu ystadegau a sut mae'n rheoli newid mewn perthynas â'r ystadegau hyn.



Ar gyfer yr ymchwil hon, fel gyda'i holl waith, mae'r SYG wedi cynnwys sicrwydd mewn perthynas â sawl thema allweddol, gan gynnwys:

- deall agweddau'r cyhoedd
- moeseg data
- methodoleg gadarn

Mae'r SYG yn croesawu'r hyder sydd gan y cyhoedd mewn perthynas â'i mesurau preifatrwydd a diogelwch, a chanfu arolwg cynrychiadol diweddar o gartrefi[22] fod 90 y cant o bobl yn credu y byddai gwybodaeth bersonol a roddir i'r SYG yn cael ei chadw'n gyfrinachol. Caiff yr hanes hwn o gynnal y safonau preifatrwydd data gorau ei gynnal i'r dyfodol.

Mewn grwpiau ffocws yn ystyried barn y cyhoedd am ei chynigion, canfu'r SYG lefelau uchel o gefnogaeth o blaid defnyddio data gweinyddol at ddibenion ystadegol pan fo prosesau diogelwch a phreifatrwydd yn glir ac wedi'u hesbonio

22 Yr arolwg am Hyder y Cyhoedd mewn Ystadegau Swyddogol (Saesneg yn unig)

ochr yn ochr â budd i'r cyhoedd. Bydd y SYG yn parhau â'r gwaith ymgysylltu hwn mewn perthynas â defnyddio data gweinyddol mewn ystadegau gydag ystod eang o gynulleidfaoedd dros y blynyddoedd nesaf. Mae hefyd yn cydymffurfio ag egwyddorion moesegol (Saesneg yn unig) Pwyllgor Cynghorol Moeseg Data'r Ystadegydd Gwladol (Saesneg yn unig), ac mae'n ymgynghori â'r pwyllgor hwnnw er mwyn cael cyngor wrth i'r gwaith ymchwil fynd rhagddo.

Drwy gydol y rhaglen drawsnewid hon, mae ymchwil y SYG sy'n sail i'r ymgynghoriad hwn wedi cael ei hadolygu gan y Panel Adolygu Sicrwydd Methodolegol (Saesneg yn unig). Mae'r panel yn cynnig arweiniad a sicrwydd allanol ac annibynnol ar y fethodoleg ystadegol sy'n sail i waith ymchwil a chynhyrchu ystadegau'r SYG.

Caiff ei gadeirio gan yr Athro Syr Bernard Silverman ac mae ei aelodau yn cynnwys y sgiliau a'r arbenigedd sydd eu hangen i roi cyngor methodolegol cynhwysfawr a chadarn ar bynciau gan gynnwys cynllun arolygon, defnyddio ffynonellau data gweinyddol ac annhraddodiadol mewn ystadegau, modelu ystadegol, cysylltu cofnodion, amcangyfrif data amlamryweb ardaloedd bach, technegau gwyddor data a demograffeg. Ceir manylion llawn am yr aelodau ar wefan Awdurdod Ystadegau'r DU (Saesneg yn unig).

Mae'r panel wedi adolygu papurau niferus am bynciau yn ymwneud â'r cyfrifiad a rhaglen drawsnewid y SYG. Ceir rhagor o wybodaeth mewn cofnodion a phapurau o gyfarfodydd y panel, y gellir cael gafael arnynt ar wefan Awdurdod Ystadegau'r DU (Saesneg yn unig).


Mae'r SYG yn parhau i ymgysylltu â'r panel a bydd yn cyflwyno adroddiad ar ei waith sicrwydd i'r Ystadegydd Gwladol cyn iddo wneud ei argymhelliad. Bydd ei adroddiad ar gael i'r cyhoedd maes o law, yn unol â phapurau eraill y panel.

ADRAN 6:

# Achos economaidd dros newid

Mae'r cynigion yn y ddogfen hon yn nodi sut y gall y SYG ddefnyddio data gweinyddol i ddarparu ystadegau am y boblogaeth yn amlach ac yn gyflymach, a gyda lefel fwy cyson o gywirdeb dros amser. Mae adborth defnyddwyr o waith ymgysylltu uniongyrchol ac o ymgynghoriadau blaenorol wedi llywio'r cynigion hyn a gweledigaeth y SYG ar gyfer y dyfodol.

Mae'r SYG yn disgwyl i'r cynigion hyn sicrhau'r budd gorau o fuddsoddiad wrth ddiwallu anghenion strategol y SYG a'r Llywodraeth, yn ogystal â'r rhai sy'n defnyddio ystadegau am y boblogaeth.




Mae gan gynigion y SYG y potensial i gynnig mwy o fuddion na'r system bresennol sy'n seiliedig ar y cyfrifiad. Byddent yn rhoi'r gallu i ddefnyddwyr nodi tueddiadau a datblygiadau mor agos â phosibl at yr adeg y byddant yn digwydd, a mwy o hyblygrwydd i gael gafael ar ystadegau sy'n ateb eu cwestiynau. Byddai hyn yn sail i fuddsoddiad gwell gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau mewn llywodraeth ganolog a llywodraeth leol, y sector preifat a'r trydydd sector. Byddai'n galluogi cyrff y sector cyhoeddus i feithrin gwell dealltwriaeth o'r ffordd mae cyfansoddiad y boblogaeth yn newid dros amser a sut mae'n ymwneud â nodweddion eraill, gan wella eu gallu i fynd i'r afael â ffynonellau gwahaniaethau.

Byddai effeithlonrwydd gwell drwy ailddefnyddio data sydd eisoes yn bodoli yn gwneud y system ystadegol yn fwy cynaliadwy, gan sicrhau gwerth am arian a lleihau'r baich ar y cyhoedd drwy symleiddio arolygon a holiaduron. Byddai'r gwelliannau i'r ystadegau hyn hefyd o fudd i ystadegau eraill y SYG sy'n dibynnu ar ffigurau'r boblogaeth, gan gynnwys allbynnau economaidd fel Cynnyrch Domestig Gros y pen, cynhyrchiant ac ystadegau'r farchnad lafur.

Bydd ymgysylltu â defnyddwyr drwy'r ymgynghoriad hwn yn helpu i lywio dadansoddiad y SYG o'r buddion y gellid eu sicrhau drwy gynhyrchu ystadegau mwy rheolaidd ac amserol am y boblogaeth a mudo. Mae dadansoddiad rhagarweiniol, gan adeiladu ar fuddion amcangyfrifedig Cyfrifiad 2021 yn awgrymu bod allbynnau mwy cyfredol yn cynnig buddion gwerth presennol uwch na'r £5.5 biliwn o fuddion a geir drwy gyfrifiad. Mae'r SYG yn disgwyl gallu darparu dadansoddiad mwy cyflawn o'r buddion unwaith y caiff y ffyrdd posibl o ddefnyddio'r data hyn, a nodir yn yr ymgynghoriad hwn, eu hystyried.

Mae'r SYG yn amcangyfrif y byddai'r rhaglen drawsnewid arfaethedig yn costio llai na hanner cost cyfrifiad yn 2031 dros gyfnod o ddeng mlynedd, a byddai rhan o'r gost hon o ganlyniad i waith ymchwil a datblygu parhaus tuag at fodel busnes fel arfer. Bydd y SYG yn parhau i fireinio ei hamcangyfrifon o gostau trawsnewid, gan ystyried anghenion defnyddwyr a nodir drwy'r ymgynghoriad hwn yn benodol.

Wrth i ni barhau i weld newid cyflym iawn ymhlith y boblogaeth, byddai'r cynigion hyn yn sicrhau bod y SYG yn barod i wynebu heriau ystadegol y dyfodol, gan sicrhau buddion gwell am lai o gost.

ADRAN 7:

# Risgiau a mesurau lliniaru

Mae'r ddogfen hon yn nodi cynigion uchelgeisiol y SYG ar gyfer cynhyrchu ystadegau am y boblogaeth a mudo yn y dyfodol. Mae rhai heriau o hyd o ran gwireddu gweledigaeth y SYG yn llawn ac yn gyflym. Caiff y risgiau hyn, a'r mesurau lliniaru cysylltiedig, eu crynhoi yn y tabl canlynol:

| Risg | Sylwadau a mesurau lliniaru |
|---|---|
| **Tarfu ar y data a gyflenwir gan sefydliadau eraill** | Mae'r Model Poblogaeth Dynamig a ddisgrifir yn Adran 4.3 wedi'i ddylunio i ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau er mwyn dibynnu llai ar un ffynhonnell ddata. Mae'r SYG yn gweithio gyda pherchnogion data i greu cytundebau i fod yn sail i brosesau cyflenwi data rheolaidd a rhagweladwy. Yn dibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, bydd gofynion craidd sy'n gysylltiedig â hyn yn rhan o argymhelliad yr Ystadegydd Gwladol. |
| **Newidiadau i'r broses o gasglu data y mae ystadegau y SYG yn dibynnu arnynt** | Mae'n bosibl y bydd rhai perchnogion data yn newid y data y maent yn eu casglu er mwyn adlewyrchu eu gofynion gweithredol. Gallai tynnu newidynnau yn ôl neu eu newid effeithio ar allu'r SYG i gynhyrchu ystadegau sy'n dibynnu ar ddata o'r fath. Gall y SYG liniaru yn erbyn hyn drwy gynnal cydberthnasau gwaith agos â pherchenogion data er mwyn deall effeithiau posibl ymhell ymlaen llaw; cynnal arolygon archwilio er mwyn deall ansawdd ffynonellau data yn well; a thrwy geisio manteisio ar gryfderau ystod eang o ffynonellau data fel na fyddai newid i un ffynhonnell yn gritigol i gynhyrchu ystadegau. |
| **Methu diwallu anghenion defnyddwyr drwy ffynonellau presennol** | Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn llywio dealltwriaeth y SYG o ofynion defnyddwyr mewn perthynas â'r mesurau ansawdd a drafodwyd yn Adran 3. Bydd hyn yn dylanwadu ar ei strategaeth casglu data dros y degawd nesaf er mwyn diwallu anghenion yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl, boed drwy ffynonellau data gweinyddol neu broses casglu data wedi'i theilwra. |

| Risg | Sylwadau a mesurau lliniaru |
|---|---|
| **Pethau'n "llithro" dros amser mewn amcangyfrifon yn seiliedig ar ddata gweinyddol** | Mae'r SYG eisoes wedi dangos bod y lefel o sicrwydd o ran amcangyfrifon o'r boblogaeth yn debygol o wella yn ystod y cyfnod o ddeng mlynedd o gymharu â'r model presennol ar gyfer cynhyrchu amcangyfrifon canol blwyddyn. Serch hynny, mae'r SYG yn cydnabod pwysigrwydd ffynonellau annibynnol i ddarparu gwybodaeth am ansawdd a chwmpas y data sydd ar gael, a bydd y gofyniad hwn yn parhau i fodoli o dan y cynigion a nodir yn y ddogfen hon. Bydd gwaith ymchwil a datblygu parhaus dros y degawd nesaf yn pennu pa ffynhonnell annibynnol sydd orau ar gyfer hyn, ac mae hyn yn debygol o gynnwys arolwg 'meincnodi' ysbeidiol. |
| **Effaith ar safonau data yn y sector cyhoeddus** | Mae'r cyfrifiad yn chwarae rôl bwysig o ran datblygu safonau ar gyfer casglu data sydd wedi'u cysoni ar draws Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth. Mae gwaith yn mynd rhagddo o fewn y Gwasanaeth i ystyried sut y gall y gwaith hwn lywio'r broses o gasglu data gweinyddol, yn gyson â'r Strategaeth Ddata Genedlaethol. |

Mae'r SYG hefyd wedi ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio â chymryd camau i newid ei system ystadegol, a pharhau gyda chyfrifiad ar raddfa lawn unwaith bob degawd, wedi'i ategu gan arolygon yn bennaf. Caiff y risgiau hyn, a'r mesurau lliniaru posibl, eu crynhoi yn y tabl canlynol:

| Risg | Sylwadau a mesurau lliniaru sydd ar gael |
|---|---|
| **Ansicrwydd ynghylch cyfraddau ymateb i gyfrifiadau ar raddfa lawn** | Er i Gyfrifiad 2021 yng Nghymru a Lloegr gael lefel uchel o ymgysylltiad ac ymateb gan y cyhoedd, mae hyn yn allanolyn o fewn tuedd ehangach o gyfrifiadau o boblogaethau ac arolygon cymdeithasol ym mhedwar ban byd. Mewn achosion diweddar lle mae cyfraddau ymateb i gyfrifiadau wedi bod yn is na'r targedau, mae mesurau lliniaru wedi cynnwys ymestyn y dyddiad cau ar gyfer ymateb i'r cyfrifiad, ymgyrchoedd cyfathrebu datblygedig, a mwy o ddefnydd o ddata gweinyddol er mwyn gallu cynhyrchu amcangyfrifon cadarn. |
| **Diffyg hyblygrwydd wrth ymateb i anghenion blaenoriaeth newydd, gan gynnwys anghenion data cynhwysol neu anghenion am wybodaeth leol** | Yn ystod y blynyddoedd rhwng cyfrifiadau, nid yw llawer o ystadegau cymdeithasol y SYG yn darparu data ar lefel leol. Mae hyn yn golygu pan fydd anghenion blaenoriaeth newydd am wybodaeth yn dod i'r amlwg, yrunig opsiynau heblaw am ddefnyddio data gweinyddol yw aros am y cyfrifiad nesaf er mwyn gofyn cwestiwn cysylltiedig, neu ddefnyddio arolygon cymdeithasol. Mewn llawer o achosion ar hyn o bryd, nid yw arolygon yn caniatáu'r SYG i fynd yn is na'r lefel ranbarthol. |
| **Lefelau cynyddol o ansicrwydd mewn perthynas ag amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth** | Heb ddefnyddio ffynonellau data gweinyddol, nid oes mesurau lliniaru ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'r lefelau cynyddol o ansicrwydd mewn perthynas â'n hystadegau poblogaeth yn ystod y degawd. Mae hyn yn golygu y gall amcangyfrifon canol blwyddyn ar gyfer rhai awdurdodau lleol gael eu goramcangyfrif neu eu tanamcangyfrif hyd at 10% dros y cyfnod o ddeng mlynedd. |
| **Costau cynyddol** | Pe bai angen cyfrifiad ar raddfa lawn yn 2031, amcangyfrifir y bydd y costau yn cynyddu o leiaf 33% yn seiliedig ar gostau hysbys y cyfrifiad diweddaraf, a gan ystyried tuedd optimistiaeth a chwyddiant. |
| **Dyblygu ymdrechion i gasglu data** | Ar hyn o bryd, mae cyfran sylweddol o'r data a gesglir drwy'r cyfrifiad eisoes yn cael eu casglu gan sefydliadau yn y sector cyhoeddus. Byddai parhau i gynnal cyfrifiad bob deng mlynedd yn dyblygu'r gwaith casglu data hwn ac yn colli'r cyfle i wneud dull y sector cyhoeddus o ymdrin â data yn fwy cydgysylltiedig a chynaliadwy. |

ADRAN 8:

# Y camau nesaf a sut i gymryd rhan

Diolch am roi o'ch amser i ddarllen drwy'r ymgynghoriad hwn. Mae'r SYG wedi pennu ei chynigion i gynnwys data gweinyddol wrth wraidd ei hystadegau, a'r cynnydd a wnaed i ddangos dichonoldeb ac ansawdd y system arfaethedig.

Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, bydd Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig, ar gyngor yr Ystadegydd Gwladol, yn gwneud argymhelliad ynghylch cynhyrchu ystadegau poblogaeth a mudo o ansawdd uchel ac sydd o fudd i'r cyhoedd yn y dyfodol, gan gynnwys argymhelliad ar ddyfodol y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr. Disgwylir ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gan Weinidogion yn Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, a Llywodraeth y DU fydd yn gyfrifol am benderfynu a ddylid galw cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr, fel y nodir yn Neddf y Cyfrifiad 1920.

Bydd yr argymhelliad hwn yn seiliedig ar y gwerthusiad o gynnydd yn erbyn tri maen prawf lefel uchel:

1. Cefnogir cynllun y SYG ar gyfer system ystadegol y dyfodol gan ddefnyddwyr fel modd o ddiwallu eu hanghenion craidd am ystadegau ynghylch maint a chyfansoddiad poblogaeth Cymru a Lloegr, ei nodweddion a'i stoc dai.
2. Bydd y system ystadegol hon yn ddigon hyblyg a chadarn i ymateb yn gyflym i anghenion defnyddwyr yn y dyfodol, a rhai sy'n dod i'r amlwg, gan addasu i newidiadau yn y ffynonellau data sydd ar gael; a bydd yn gallu mynd y tu hwnt i anghenion craidd.
3. Mae dulliau a ffyrdd o weithredu wedi'u hadolygu gan gymheiriaid ac yn cydymffurfio ag ystyriaethau deddfwriaethol a moesegol perthnasol, mae cynlluniau'r SYG wedi'u derbyn gan y cyhoedd ac mae achos busnes a chynllun rhaglen ar waith er mwyn creu system ystadegol gynaliadwy.

Bydd eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn helpu i lywio'r gwerthusiad hwn, a'r gwaith o ddatblygu argymhelliad yr Ystadegydd Gwladol.

Bydd y SYG yn rhoi diweddariad o fewn 12 wythnos i ddyddiad cau'r ymgynghoriad ac yn cyhoeddi adroddiad penodol ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Bydd hyn yn llywio'r argymhelliad.

**Fe'ch gwahoddir i ymateb i holiadur yr ymgynghoriad cyn y dyddiad cau, sef dydd Iau 26 Hydref 2023.** Gallwch gwblhau holiadur yr ymgynghoriad ar-lein neu ar ddiwedd y ddogfen hon. Mae'r ddogfen ymgynghori a'r holiadur hefyd ar gael ar ffurf copi caled ac mewn print mawr ar gais.

Gellir anfon ymholiadau i **2023consultation@ons.gov.uk**, cysylltu â Gwasanaethau Cwsmeriaid y SYG ar **01329 444 972**, neu anfon gohebiaeth drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Tîm Ymgynghoriadau'r SYG
Ystafell Bost
Swyddfa Ystadegau Gwladol
Segensworth Road
Fareham PO15 5RR

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

## Cyfrinachedd a diogelu data

Mae angen eich enw a'ch cyfeiriad e-bost ar y SYG er mwyn derbyn eich ymateb. Efallai y byddwn yn cysylltu â chi ynglŷn â'ch ymateb i'r ymgynghoriad.

Rydym yn ceisio bod mor agored â phosibl o ran ein proses gwneud penderfyniadau. Fel rhan o hyn, rydym yn bwriadu cyhoeddi crynodeb dienw o'r ymatebion a gawn. Ni fyddwn yn cyhoeddi enw personol unrhyw ymatebydd. Ni chaiff enwau unigolion, sefydliadau na grwpiau eu cysylltu ag unrhyw sylwadau a roddir gennych.

Caiff enw pob sefydliad a grŵp a fydd yn ymateb i'r ymgynghoriad ei gyhoeddi mewn rhestr o ymatebwyr.

Dylech fod yn ymwybodol ein bod, fel awdurdod cyhoeddus, yn ddarostyngedig i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac ni allwn byth warantu'n llwyr na chaiff enwau ac ymatebion eu cyhoeddi. Ni fyddwn yn cyhoeddi manylion cyswllt personol, fel cyfeiriadau e-bost. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch ein Polisi Preifatrwydd (Saesneg yn unig).

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi cael ei gynnal yn unol ag egwyddorion ymgynghori'r llywodraeth (Saesneg yn unig). Os hoffech gwyno am y ffordd y mae'r ymgynghoriad hwn wedi cael ei gynnal, e-bostiwch: **2023consultation@ons.gov.uk**.

ATODIAD A:

# Holiadur

## Gwybodaeth gyffredinol

### Ein cynlluniau trawsnewid

Yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), rydym am glywed eich barn am ein cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer trawsnewid ein hystadegau poblogaeth a mudo. Mae'r ystadegau hyn yn cwmpasu amrywiaeth eang o feysydd, gan gynnwys nodweddion cartrefi, cyflogaeth, iechyd, crefydd a mudo rhyngwladol.

Mae ystadegau am y boblogaeth sy'n amserol ac o ansawdd uchel yn hanfodol wrth sicrhau bod pobl yn derbyn y gwasanaethau a chefnogaeth y maent yn eu hangen o fewn cymunedau a ledled y wlad. Rydym yn ymgynghori i sicrhau bod yr ystadegau a'r dadansoddiadau rydym yn eu cynhyrchu am y boblogaeth a mudo yn parhau i ddiwallu anghenion newidiol y rhai sy'n llunio polisïau, dinasyddion a phobl eraill sy'n defnyddio'r data. Dylai ein hystadegau roi gwybodaeth reolaidd, glir, amserol a manwl am gymdeithas i chi. Rydym hefyd am wella cwmpas a chywirdeb ein hystadegau dros amser. I wneud yn siŵr ein bod yn diwallu eich anghenion, mae angen eich adborth arnom ar ein cynigion.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn esbonio cynigion y SYG i greu system gynaliadwy ar gyfer cynhyrchu ystadegau hanfodol a chyfredol am y boblogaeth. I wneud hyn byddai'r system yn bennaf yn defnyddio data gweinyddol megis data ar drethi neu fudd-daliadau, wedi'i ategu gan ddata arolwg ac ystod ehangach o ffynonellau data. Gallai hyn wella'r data mae'r SYG yn cynhyrchu bob blwyddyn yn sylweddol, a gallai ddisodli'r ddibyniaeth bresennol ar y cyfrifiad bob deng mlynedd. Mae'r ymgynghoriad hyn yn edrych am safbwyntiau ar sut mae'r cynigion yn diwallu anghenion defnyddwyr ystadegau'r SYG o gymharu â system sy'n seiliedig ar gyfrifiad.

Darganfyddwch ragor am sut y byddem yn bwriadu darparu ystadegau am y boblogaeth yn y dyfodol trwy wylio ein fideo am y daith tuag at drawsnewid.

### Pwy ddylai gymryd rhan?

Croesawn gyfraniadau gan bob defnyddiwr. Mae hyn yn cynnwys defnyddwyr profiadol ystadegau'r SYG a'r rhai sydd am ddefnyddio data'r SYG am y boblogaeth a mudo am y tro cyntaf. Rydym yn gwerthfawrogi adborth pawb.

### Sut i gymryd rhan

Cyn i chi gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, gallwch ddysgu mwy am ein cynlluniau arfaethedig yn y ddogfen ymgynghori isod. Mae hyn ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac mae'n hygyrch i'r rhai sydd yn defnyddio darllenwyr sgrin.

Pan fyddwch yn llenwi'r holiadur, dim ond yr adran gyntaf, 'Amdanoch chi' sy'n orfodol, mae pob adran arall yn ddewisol. Mae hyn yn golygu y gallwch ddewis ar beth yr hoffech wneud sylwadau.

Gofynnwn i chi ystyried ein cynigion ac ymateb i'r ymgynghoriad hwn cyn 11:59pm nos Iau 26 Hydref 2023. Bydd cael gwell dealltwriaeth o'ch anghenion a'ch blaenoriaethau yn ein helpu ni i lywio ein cynlluniau ar gyfer yr ystadegau pwysig hyn.

Gallwch gysylltu â'r SYG am gymorth neu wybodaeth bellach am yr ymgynghoriad yma drwy e-bostio **2023consultation@ons.gov.uk**

Diolch.

## Amdanoch chi

Mae angen eich enw a'ch cyfeiriad e-bost ar y SYG er mwyn cael eich ymateb i'r ymgynghoriad. Efallai y byddwn yn cysylltu â chi ynglŷn â'ch ymateb i'r ymgynghoriad.

Rydym yn ceisio bod mor agored â phosibl o ran ein proses gwneud penderfyniadau. Fel rhan o hyn, rydym yn bwriadu cyhoeddi crynodeb dienw o'r ymatebion a gawn. Ni fyddwn yn cyhoeddi enwau na data personol eraill unrhyw ymatebydd unigol. Fodd bynnag, caiff enwau pob sefydliad a grŵp a fydd yn ymateb i'r ymgynghoriad eu cyhoeddi mewn rhestr o ymatebwyr. Ni chaiff enwau sefydliadau neu grwpiau eu cysylltu ag unrhyw sylwadau a roddir.

Dylech fod yn ymwybodol ein bod, fel awdurdod cyhoeddus, yn ddarostyngedig i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac ni allwn byth warantu'n llwyr na chaiff enwau neu ymatebion eu cyhoeddi. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch ein Polisi Preifatrwydd (Saesneg yn unig).

**Enw llawn**
Gofynnol

..........................................................................................................................

**Cyfeiriad e-bost**
Byddwn yn defnyddio hwn i gadarnhau bod eich ymateb wedi ei dderbyn.
Gofynnol

..........................................................................................................................

**Ydych chi'n llenwi'r holiadur hwn ar ran sefydliad?**
Gofynnol

☐ Ydw

☐ Nac ydw

Os ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad:

**Beth yw enw'r sefydliad?**

Gofynnol

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

**I ba sector y mae'r sefydliad yn perthyn?**

Gofynnol

- ☐ Llywodraeth ganolog
- ☐ Gweinyddiaeth ddatganoledig
- ☐ Llywodraeth leol
- ☐ Corff cyhoeddus arall, er enghraifft iechyd, trafnidiaeth neu wasanaethau brys
- ☐ Academia neu ymchwil
- ☐ Crefydd neu ffydd
- ☐ Elusennol neu wirfoddol
- ☐ Busnes, diwydiant neu fasnachol
- ☐ Newyddiaduriaeth neu'r cyfryngau
- ☐ Melin drafod
- ☐ Dim sector, rwy'n ymateb o safbwynt personol
- ☐ Arall

Os gwnaethoch ddewis 'Arall', nodwch sector eich sefydliad isod.

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

**Yn ystod y 12 mis diwethaf, tua pa mor aml ydych chi wedi defnyddio ystadegau gan y SYG neu gyfeirio atynt?**

- [ ] Yn ddyddiol
- [ ] Ychydig o weithiau'r wythnos
- [ ] Ychydig o weithiau'r mis
- [ ] Ychydig o weithiau'r flwyddyn
- [ ] Yn llai aml nag ychydig o weithiau'r flwyddyn
- [ ] Byth

**At ba ddiben ydych chi'n defnyddio ystadegau'r SYG am y boblogaeth a mudo ar hyn o bryd?**

- [ ] Ymchwil academaidd
- [ ] Masnachol
- [ ] Defnydd personol
- [ ] Polisi cyhoeddus
- [ ] Arall

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

# Eich anghenion ystadegau am y boblogaeth a mudo

**1a. Esboniwch sut rydych chi'n defnyddio ystadegau'r SYG am y boblogaeth a mudo ar hyn o bryd?**

............................................................................................................................................

............................................................................................................................................

............................................................................................................................................

............................................................................................................................................

**1b.** Drwy gydol y ddogfen ymgynghori, rydym wedi amlinellu ein cynigion ar gyfer newidiadau i'n hystadegau am y boblogaeth a mudo, a rhoddwyd manylion yn Adran 3.

**I ba raddau y mae'r cynigion hyn yn diwallu eich anghenion?**

☐ Mae'r cynigion yn diwallu fy holl anghenion

☐ Mae'r cynigion yn diwallu rhai o fy anghenion

☐ Nid yw'r cynigion yn diwallu fy anghenion

**1c.** Rydym wedi amlinellu manteision posibl y system ar ei newydd wedd o fewn Adran 6 yn y ddogfen ymgynghori.

**A yw'r cynigion hyn yn diwallu eich anghenion gwybodaeth presennol yn well?**

☐ Yes

☐ No

Os yw eich ateb yn 'Nac ydyn', ewch i gwestiwn 1d. Os yw'n 'Ydyn', parhewch.

**Pa rai o'ch anghenion gwybodaeth sy'n cael eu diwallu'n well gan y cynigion hyn? Esboniwch y rhesymau dros eich ateb.**

............................................................................................................................................

............................................................................................................................................

............................................................................................................................................

............................................................................................................................................

**1d. A fyddai'r cynigion hyn yn eich galluogi i wneud unrhyw beth newydd gyda'r data nad ydych wedi gallu ei wneud o'r blaen?**

☐ Byddent

☐ Na fyddent

☐ Ddim yn gwybod

☐ Nid oes angen i mi wneud unrhyw beth newydd

**Esboniwch y rhesymau dros eich ateb.**

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

Darllenwch Adran 6 o'r ddogfen ymgynghori am ragor o fanylion.

**Os rydych chi wedi ateb gyda 'Mae'r cynigion yn diwallu fy holl anghenion' yng nghwestiwn 1a, ewch i Adran 3. Fel arall, parhewch.**

**1e. Pa rai o'ch anghenion presennol na fyddai'r cynigion hyn yn eu diwallu?**
Cyfeiriwch at y rhesymau yn eich ateb. Er enghraifft, gwybodaeth am lefelau manylder, cywirdeb, amseroldeb neu ddaearyddiaeth.

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

## Effaith ar eich anghenion gwybodaeth

Mae diddordeb gennym yn y ffordd y bydd ein cynnig yn effeithio ar eich anghenion gwybodaeth.

**2a.** Yn y ddogfen ymgynghori, rydym wedi amlinellu ein huchelgais i ddarparu amcangyfrifon nodweddion ar lefel Awdurdod Lleol, gyda rhai ar gael ar lefelau is (er enghraifft Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is). Darllenwch Adran 3.3.3 o'r ddogfen ymgynghori am ragor o fanylion.

**A yw'r lefelau arfaethedig o ddadansoddiad daearyddol yn diwallu eich anghenion gwybodaeth?**

☐ Ydyn

☐ Nac ydyn

☐ Dim yn gwybod

**Pa ddadansoddiadau daearyddol ychwanegol y byddai eu hangen arnoch?**
Esboniwch y rhesymau dros eich ateb.

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

**2b.** Gallai defnyddio data gweinyddol olygu bod dadansoddiadau ar gyfer nodweddion llai manwl ar gael, yn enwedig pan fo dadansoddiadau manylach yn cael eu casglu yn y cyfrifiad y tu hwnt i opsiynau blychau ticio safonol. Darllenwch Adran 3.3.3 o'r ddogfen ymgynghori i gael rhagor o fanylion.

**A fyddai'r newid hwn o ran y manylder a fyddai ar gael yn diwallu eich anghenion o hyd?**

☐ Byddai

☐ Na fyddai

☐ Dim yn gwybod

Pa effaith fyddai'r newid hwn o ran y manylder a fyddai ar gael yn ei chael ar eich defnydd o'n hystadegau o'r boblogaeth a mudo?
**Esboniwch eich ateb.**

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

## Diffiniadau ac amcangyfrifon o'r boblogaeth

**3a.** Mae Adran 3.1.1 o'r ddogfen ymgynghori yn esbonio y byddwn yn parhau i gynhyrchu amcangyfrifon am y boblogaeth a mudo yn seiliedig ar ein diffiniad 'preswylydd arferol' cyfredol, ond rydym yn archwilio diffiniadau amgen.

**Oes angen diffiniadau ar gyfer amcangyfrifon poblogaeth heblaw am 'preswylydd arferol'?**

☐ Oes

☐ Nac oes

**Os rydych yn ateb 'Nac oes', ewch i gwestiwn 4a. Os rydych yn ateb 'Oes', parhewch.**

**3b.** Mae Adran 3.1.1 o'r ddogfen ymgynghori yn amlinellu'r potensial i ddarparu amcangyfrifon poblogaethau yn seiliedig ar wahanol cyfnodau cyfeirio, a elwir "y boblogaeth sy'n bresennol".

**Ar gyfer amcangyfrifon "y boblogaeth sy'n bresennol", beth sydd o ddiddordeb i chi?** Dewiswch bob un sy'n berthnasol ac esboniwch y rheswm dros angen pob diffiniad.

☐ Dros nos

☐ Yn ôl diwrnod o'r wythnos

☐ Yn ystod y dydd

☐ Yn ôl diwrnod o'r wythnos neu'r penwythnos

☐ Cyfartaledd

☐ Fel cyfartaledd wythnosol

☐ Arall

☐ Nid oes angen data ar "y boblogaeth sy'n bresennol" arnaf

**Esboniwch y rhesymau dros angen y diffiniad hwn o'r "boblogaeth sy'n bresennol" arnoch.**

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

**3c. Pa ddiffiniadau eraill y gallem eu defnyddio er mwyn amcangyfrif y boblogaeth a mudo fyddai'n diwallu eich anghenion, os o gwbl?**

Esboniwch y rhesymau dros angen unrhyw ddiffiniadau ychwanegol.

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

## Darparu amcangyfrifon o'r boblogaeth yn y dyfodol

**4a.** Mae Adran 3.1 o'r ddogfen ymgynghori yn nodi ein cynlluniau ar gyfer datblygu amcangyfrifon o'r boblogaeth yn y dyfodol. **Ar gyfer y boblogaeth breswyl arferol pa mor aml fyddwch chi'n hoffi amcangyfrifon poblogaeth?** Dewiswch yr amlder pwysicaf i chi.

☐ Yn amlach nag unwaith y flwyddyn

☐ Yn flynyddol

☐ Nid wyf yn defnyddio amcangyfrifon o'r boblogaeth

☐ Arall

Os gwnaethoch dicio 'Arall', nodwch.

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

**Esboniwch eich rhesymau dros ddewis yr amlder cyhoeddi hwn a beth fyddai fwyaf ddefnyddiol.**

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

**4b.** Mae Adran 3.1 yn amlinellu ein cynlluniau i ddarparu amcangyfrifon dros dro a therfynol. **Pa mor aml hoffwch weld amcangyfrifon poblogaeth?**

- ☐ Amcangyfrifon dros dro cynnar, ac yna amcangyfrifon sydd wedi eu diweddaru 12 mis ar ôl y cyfnod cyfeirio
- ☐ Amcangyfrifon sydd wedi eu diweddaru yn unig, 12 mis ar ôl y cyfnod cyfeirio
- ☐ Dim yn gwybod
- ☐ Nid wyf yn defnyddio amcangyfrifon am y boblogaeth

**Esboniwch y rheswm am eich ateb.**

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

## Anghenion data ar gyfer achau a hanes cymdeithasol

**5a.** Mae Adran 3.5 o'r ddogfen ymgynghori yn amlinellu'r potensial i ystyried ffyrdd o gadw gwybodaeth bersonol a gafwyd o'r data gweinyddol a ddefnyddir i greu ein hystadegau, at ddibenion hanesyddol.

**Pa fanylion o'n data presennol am nodweddion y boblogaeth a chymdeithas sy'n bwysig i'w cadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn eich barn chi, os o gwbl?** Esboniwch pam mae'r data hwn yn bwysig i'w gadw.

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

## Sylwadau eraill

**6a. A oes unrhyw beth arall am gynigion ystadegau am y boblogaeth a mudo yr hoffech ei ychwanegu at eich ymateb?**

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

Mae’r ymgynghoriad hyn yn ymwneud ag ystadegau’r SYG am y boblogaeth a mudo ar gyfer Cymru a Lloegr, sydd yn cyfrannu tuag at gynhyrchu ystadegau’r Deyrnas Unedig.

**Ar gyfer pa rai o’r ardaloedd daearyddol hyn ydych chi’n defnyddio ystadegau’r SYG ar eu cyfer?** Os ydych chi’n defnyddio mwy nag un, dewiswch bob un sy’n berthnasol.

- [ ] Cymru a Lloegr
- [ ] Cymru yn unig
- [ ] Lloegr yn unig
- [ ] Ar draws y Deyrnas Unedig
- [ ] Dim un o’r uchod

Diolch am gymryd yr amser i gwblhau’r ymgynghoriad hyn.
**Oes modd i’r SYG cysylltu â chi am wybodaeth bellach ar eich ymatebion?**

- [ ] Oes
- [ ] Nac Oes

ATODIAD B:

# Geirfa

### Amcangyfrifon amlamryweb:

Ystadegau sy'n cyfuno newidynnau â'i gilydd, sy'n golygu y gellir cymharu, er enghraifft, nifer y bobl mewn grwpiau ethnig gwahanol a'r mathau o dai y maent yn byw ynddynt.

### Amcangyfrifon o nodweddion:

Ystadegau am nifer y bobl â nodwedd benodol, fel grŵp ethnig neu lefelau penodol o gymwysterau. Mae amcangyfrifon unamryweb yn disgrifio un nodwedd, ac mae amcangyfrifon amlamryweb yn disgrifio dwy nodwedd neu fwy.

### Amcangyfrifon o'r boblogaeth:

Ystadegau am nifer y bobl mewn ardal ddaearyddol benodol, gan gynnwys gwybodaeth am sut y caiff y niferoedd hyn eu rhannu yn ôl oedran a rhyw.

### Amcangyfrifon unamryweb:

Ystadegau sy'n disgrifio un newidyn, fel nifer y bobl mewn grwpiau ethnig gwahanol, neu nifer y mathau gwahanol o dai mewn ardal benodol. Mae cyfuniadau o ddata unamryweb yn ffurfio amcangyfrifon amlamryweb.

### Amcangyfrifon wedi'u 'trosglwyddo':

Amcangyfrifon a gaiff eu cynhyrchu drwy ddiwygio amcangyfrifon ar gyfer dyddiadau cyfeirio blaenorol â data o ffynonellau eraill i greu amcangyfrif newydd, yn hytrach na bod pob amcangyfrif yn seiliedig ar ddata o'r newydd. Ar hyn o bryd, caiff amcangyfrifon canol blwyddyn eu cynhyrchu drwy drosglwyddo data o'r cyfrifiad diweddaraf, a'u hategu â data o ffynonellau gweinyddol ac arolygon, flwyddyn ar ôl blwyddyn.

### Amlder (ansawdd):

Pa mor aml y caiff ystadegau mewn cyfres eu cynhyrchu.

### Amseroldeb (ansawdd):

Pa mor fuan y caiff ystadegau eu cyhoeddi ar ôl y dyddiad cyfeirio (y dyddiad y maent yn ei ddisgrifio).

### Ansicrwydd:

Pa mor fanwl gywir yw amcangyfrif, caiff ei alw'n 'amrywiant' hefyd. Er enghraifft, gallem ddweud bod amcangyfrif o'r boblogaeth mewn ardal yn 100,000 o bobl, gyda chyfwng hyder 95% o blws neu finws 2%. Mae hyn yn golygu ein bod 95% yn sicr bod y cyfrif 'gwirioneddol' o'r boblogaeth rhwng 98,000 a 102,000. Po gulaf yw'r cyfwng hyder, mwyaf sicr rydym o fanwl gywirdeb yr amcangyfrif.

### Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol:

Ardal ddaearyddol ar gyfer ystadegau'r SYG. Bydd yn cynnwys pedwar neu bum Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is fel arfer a rhwng 2,000 a 6,000 o gartrefi (5,000 i 15,000 o bobl).

### Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is:

Ardal ddaearyddol ar gyfer ystadegau'r SYG. Bydd yn cynnwys pedwar neu bum Ardal Gynnyrch fel arfer a rhwng 400 a 1,200 o gartrefi (1,000 i 3,000 o bobl).

### Ardal Gynnyrch:

Y lefel isaf o ardal ddaearyddol ar gyfer ystadegau'r cyfrifiad, sy'n cynnwys rhwng 40 a 250 o gartrefi (100 i 625 o bobl).

### Cywirdeb (ansawdd):

Pa mor agos yw ystadegau at werthoedd gwirioneddol.

### Daearyddiaeth (ansawdd):

Pa mor fanwl yw ystadegau o ran cwmpas daearyddol (gweler Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is, Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol ac Ardal Gynnyrch isod).

### Data coll:

Diffyg gwybodaeth am unigolion â nodweddion penodol mewn ffynonellau data gweinyddol. Gall defnyddio ffynonellau a dulliau ychwanegol helpu i gynhyrchu amcangyfrifon sy'n cyfrif am ddata coll.

### Data dad-adnabyddedig:

Data lle mae dynodwyr uniongyrchol (fel enw, cyfeiriad, dyddiad geni neu fanylion adnabod gweithredol, fel rhif Yswiriant Gwladol) wedi cael eu dileu.

### Data gweinyddol:

Gwybodaeth a gaiff ei chasglu at ddibenion gweinyddol neu weithredol, fel drwy'r systemau treth, budd-daliadau, iechyd ac addysg.

### Dyddiad cyfeirio:

Y dyddiad y mae ystadegau yn sôn amdano. Er enghraifft, y dyddiad cyfeirio ar gyfer amcangyfrifon Cyfrifiad 2021 yw Diwrnod y Cyfrifiad (21 Mawrth 2021).

### Manylder (ansawdd):

Lefel manylder y dosbarthiadau sydd ar gael mewn ystadegau (er enghraifft, a ellir rhannu 'oedran' yn flynyddoedd unigol neu'n fandiau oedran).

### Model Poblogaeth Dynamig:

Dull modelu ystadegol sy'n defnyddio amrywiaeth o ddata i fesur y boblogaeth a newidiadau i'r boblogaeth mewn ffordd gwbl gydlynol. Ceir disgrifiad manylach yn Adran 4.3.

### Nodweddion gwarchodedig:

Naw nodwedd warchodedig a gaiff eu diogelu gan y gyfraith o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Y nodweddion hyn yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol.

### Safonau ansawdd:

Y lefel o ansawdd ystadegol a fwriedir ar gyfer amcangyfrifon. Yn achos y cynnig ar gyfer ystadegau poblogaeth a mudo wedi'u trawsnewid, mae'r safonau hyn yn seiliedig ar y rheini a gyflawnwyd gan y system bresennol sy'n seiliedig ar y cyfrifiad a'r amcangyfrifon canol blwyddyn drwy'r degawd rhwng Cyfrifiad 2011 a'r flwyddyn cyn Cyfrifiad 2021. Mae'r cyfnod yn ymgorffori ansawdd ystadegol uchel allbynnau'r cyfrifiad, a'r dirywiad mewn ansawdd wrth symud ymhellach oddi wrth flwyddyn y cyfrifiad. Yn yr achos hwn, mae'r safon ansawdd yn seiliedig ar yr ansawdd a amcangyfrifwyd ar gyfer amcangyfrifon canol blwyddyn 2016, sy'n adlewyrchu'r cyfartaledd dros y degawd. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y safonau ansawdd mewn papur gan y Panel Adolygu Sicrwydd Methodolegol (Saesneg yn unig).

### Set Ddata Hydredol am y Boblogaeth:

Set ddata a fyddai'n galluogi'r ddealltwriaeth o ganlyniadau dros amser mewn grwpiau poblogaeth gwahanol, fel canlyniadau plant â phrofiad o fod mewn gofal. Ceir disgrifiad manylach yn Adran 4.3.

### Set Ddata Ystadegol o'r Boblogaeth:

Set ddata ddienw sy'n ffurfio'r sylfaen ar gyfer amcangyfrif maint y boblogaeth breswyl drwy'r Model Poblogaeth Dynamig. Caiff ei chynhyrchu drwy gysylltu cofnodion ar draws ffynonellau data gweinyddol niferus a chymhwyso set o reolau cynnwys a dosbarthu. Cyfeiriwyd ati hyn yn flaenorol fel Amcangyfrifon Poblogaeth yn seiliedig ar Ddata Gweinyddol. Ceir disgrifiad manylach yn Adran 4.3.

### Tuedd:

I ba raddau y mae ystadegyn yn tanamcangyfrif neu'n goramcangyfrif, o gymharu â gwerth 'gwirioneddol'

ATODIAD C:

# Cymharu allbynnau presennol ac yn y dyfodol yng Nghymru a Lloegr

Mae'r tablau canlynol yn defnyddio'r mesurau ansawdd i grynhoi cryfderau a gwendidau bras (i) amcangyfrifon o'r cyfrifiad, (ii) amcangyfrifon a gaiff eu cynhyrchu ar hyn o bryd rhwng cyfrifiadau, a'r (iii) uchelgais sylfaenol ar gyfer allbynnau yn y dyfodol y gallai'r SYG eu cynhyrchu gyda'i dulliau arfaethedig. Mae uchelgais sylfaenol y SYG yn seiliedig ar ei hasesiad presennol o anghenion defnyddwyr ac argaeledd data. Mae rhai pynciau lle gall y SYG fynd ymhellach na'r llinell sylfaen, ac mae rhai eraill lle mae angen datblygu ymhellach er mwyn bodloni'r llinell sylfaen gan ddefnyddio ffynonellau data gweinyddol. Nid oes unrhyw fesurau cywirdeb ar gael ar gyfer amcangyfrifon o nodweddion ar hyn o bryd. Caiff gwahaniaethau o ran manylder eu trafod yn Adran 3.3.3.

## Amcangyfrifon o'r boblogaeth

| Amcangyfrifon presennol y cyfrifiad | Amcangyfrifon 'rhyng-gyfrifiadol' presennol | Amcangyfrifon yn y dyfodol |
|---|---|---|
| **Amlder:** Bob 10 mlynedd | **Amlder:** Bob blwyddyn | **Amlder:** Bob blwyddyn |
| **Amseroldeb a daearyddiaeth:** 15 mis o oedi ar lefel Ardal Gynnyrch (100 i 625 o bobl) | **Amseroldeb a daearyddiaeth:** 12 mis o oedi ar lefel awdurdod lleol;<br>15 mis o oedi ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (1,000 i 3000 o bobl). | **Amseroldeb a daearyddiaeth:** 6 mis o oedi am amcangyfrifon dros dro, 12 mis o oedi am amcangyfrifon wedi'u diweddaru, ar lefel awdurdod lleol, gyda'r potensial am lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yn dibynnu ar ansawdd y data a fewnbynnir. |
| **Cywirdeb:** Amcangyfrifon hynod gywir. | **Cywirdeb:** Cywirdeb amcangyfrifon yn dirywio dros y cyfnod o 10 mlynedd | **Cywirdeb:** Lefel gyson o gywirdeb dros y cyfnod o 10 mlynedd. |

## Amcangyfrifon o gartrefi

| Amcangyfrifon presennol y cyfrifiad | Amcangyfrifon 'rhyng-gyfrifiadol' presennol | Amcangyfrifon yn y dyfodol |
|---|---|---|
| Amlder: Bob 10 mlynedd | **Amlder:** Bob blwyddyn | **Amlder:** Bob blwyddyn |
| **Amseroldeb:** 18 mis o oedi | **Amseroldeb:** 5 mis o oedi | **Amseroldeb:** 12 mis o oedi |
| **Daearyddiaeth:** Lefel Ardal Gynnyrch | **Daearyddiaeth:** Rhanbarthol | **Daearyddiaeth:** Lefel awdurdod lleol wedi'i dangos gyda'r nod o gyrraedd lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is |

## Amcangyfrifon o dai

| Amcangyfrifon presennol y cyfrifiad | Amcangyfrifon 'rhyng-gyfrifiadol' presennol | Amcangyfrifon yn y dyfodol |
|---|---|---|
| **Amlder:** Bob 10 mlynedd | **Amlder:** Yn amrywio ar gyfer newidynnau gwahanol, rhwng bob 1 i 5 mlynedd, neu ddim ar gael | **Amlder:** Bob blwyddyn |
| **Amseroldeb:** 22 mis o oedi | **Amseroldeb:** Yn amrywio o 1 mis i 5 mlynedd. | **Amseroldeb:** 12 i 18 mis o oedi gyda'r potensial am gyfnodau oedi byrrach ar gyfer rhai pynciau (3-6 mis) |
| **Daearyddiaeth:** Lefel Ardal Gynnyrch | **Daearyddiaeth:** O gyfeiriad unigol hyd at lefel awdurdod lleol | **Daearyddiaeth:** Lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is gyda'r potensial am lefel Ardal Gynnyrch |

## Amcangyfrifon o nodweddion unamryweb

| Amcangyfrifon presennol y cyfrifiad | Amcangyfrifon 'rhyng-gyfrifiadol' presennol | Amcangyfrifon yn y dyfodol |
|---|---|---|
| **Amlder ac amseroldeb:** Bob 10 mlynedd, gyda rhwng 18 a 24 mis o oedi | **Amlder ac amseroldeb:** Yn amrywio ar gyfer pynciau gwahanol. Gall ystadegau gael eu cynhyrchu bob blwyddyn, bob dwy flynedd, neu ddim o gwbl, gyda rhwng 6 a 24 mis o oedi. | **Amlder ac amseroldeb:** Yn amrywio ar gyfer pynciau gwahanol. Mae Adran 3.3 yn manylu ar ein huchelgais realistig ar gyfer holl bynciau presennol y cyfrifiad, gyda disgwyl i lawer gael eu cynhyrchu bob blwyddyn neu bob dwy flynedd, â 12 i 15 mis o oedi |
| **Daearyddiaeth:** Lefel Ardal Gynnyrch neu Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is | **Daearyddiaeth:** Rhanbarthol yn bennaf, rhai ar lefel awdurdod lleol | **Daearyddiaeth:** Yn amrywio ar gyfer pynciau gwahanol. Mae Adran 3.3 yn manylu ar ein huchelgais realistig ar gyfer holl bynciau'r cyfrifiad, rhwng lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ac awdurdodau lleol yn gyffredinol. |

## Amcangyfrifon o nodweddion amlamryweb

| Amcangyfrifon presennol y cyfrifiad | Amcangyfrifon 'rhyng-gyfrifiadol' presennol | Amcangyfrifon yn y dyfodol |
|---|---|---|
| **Amlder:** Bob 10 mlynedd | **Amlder:** Yn amrywio ar gyfer pynciau gwahanol, ac ni chaiff llawer eu cynhyrchu rhwng cyfrifiadau. | **Amlder:** Mor aml â phosibl, yn dibynnu ar y data unamryweb cyfrannol; ein huchelgais realistig ar gyfer y rhan fwyaf o bynciau yw cynhyrchu allbynnau bob blwyddyn neu bob dwy flynedd (gweler Adran 3.3). |
| **Amseroldeb:** 2 flynedd o oedi | **Amseroldeb:** Yn amrywio, hyd at 24 mis o oedi | **Amseroldeb:** Mor amserol â phosibl, yn dibynnu ar y data unamryweb cyfrannol (Adran 3.3). Byddai hyn yn arwain at rhwng 15 a 18 mis o oedi ar gyfer y rhan fwyaf o bynciau. |
| **Daearyddiaeth:** Lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is hyd at lefel awdurdod lleol | **Daearyddiaeth:** Rhanbarthol yn bennaf, rhai ar lefel awdurdod lleol | **Daearyddiaeth:** Lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is hyd at lefel awdurdod lleol ar gyfer y rhan fwyaf o bynciau (yn seiliedig ar y data unamryweb cyfrannol – gweler Adran 3.3) |

## Gallu hydredol

| Amcangyfrifon presennol y cyfrifiad | Amcangyfrifon ‘rhyng-gyfrifiadol’ presennol | Amcangyfrifon yn y dyfodol |
|---|---|---|
| Astudiaeth Hydredol 1% yn defnyddio data'r cyfrifiad a detholiad o ffynonellau gweinyddol er mwyn deall sut y gall digwyddiadau bywyd amrywio yn ôl nodweddion. | Ddim yn berthnasol | Set Ddata Hydredol Ddienw am y Boblogaeth, sy'n ceisio cynrychioli'r boblogaeth yng Nghymru a Lloegr. Mae'r cwmpas cynhwysfawr yn golygu bod y potensial ar gyfer astudiaethau ac ymchwil wedi'i ehangu'n sylweddol, yn enwedig ar gyfer grwpiau lleiafrifol a phoblogaethau ar lefelau daearyddol is. |

OGL

© Hawlfraint y Goron 2023

Mae’r cyhoeddiad hwn wedi’i drwyddedu o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3, ysgrifennwch i Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu e-bostiwch: **psi@nationalarchives.gsi.gov.uk**.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

